



Cynllun Blynyddol 2016/17

Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

Datganiad

Dyddiad cyhoeddi:

30 Mawrth 2016

Y ddogfen hon

Mae Ofcom yn bodoli er mwyn sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri phrif nod: hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr; sicrhau safonau a gwella ansawdd; a diogelu defnyddwyr rhag niwed. Mae ein Cynllun Blynyddol yn disgrifio rhai o'r meysydd gwaith allweddol y byddwn yn ceisio'u cyflwyno er mwyn cyflawni'r nodau hyn, ar draws y DU ac yn y gwledydd, yn 2016/17. Rydym hefyd yn disgrifio ein gwaith parhaus ehangach sy'n cefnogi'r nodau hyn, a sut y byddwn yn gweithio ar ran defnyddwyr ar draws gwledydd y DU.

Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid i'n hymgyngoriad ar y Cynllun arfaethedig. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu sydd wedi codi o gasgliadau cychwynnol ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol. Rydym wedi diweddarau nifer o'r meysydd a amlygir (yn Adran 3) i adlewyrchu ein casgliadau cychwynnol. Mae ein cynllun gwaith (Atodiad 1) yn disgrifio'r prosiectau newydd i weithredu strategaeth yr Adolygiad o Gyfathrebiadau Digidol.

Cynnwys

Adrannau

1	Beth rydym yn ei wneud	3
2	Newidiadau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio	5
3	Ein nodau ac uchafbwyntiau ar gyfer 2016/17	8
4	Cyflawni ein nodau ledled y DU	12
5	Gwaith sy'n parhau i gyflawni ein dyletswyddau	15
6	Sicrhau gwerth am arian	20

Tudalen

Atodiadau

1	Y rhaglen waith ar gyfer 2016/17	22
2	Ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Arfaethedig	33

Tudalen

Adran 1

Beth rydym yn ei wneud

- 1.1 Rydym yn rheoleiddio telegyfathrebiadau llinell sefydlog a symudol, teledu, radio a gwasanaethau fideo-ar-alwad, y post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Rydym yn helpu unigolion a busnesau yn y DU i gael y gorau o wasanaethau cyfathrebiadau ac yn eu diogelu rhag arferion cyfrwys. Lle bo'n briodol, rydym yn cefnogi cystadleuaeth fel sail ar gyfer darparu canlyniadau da i ddefnyddwyr.
- 1.2 Rydym yn gweithredu'n annibynnol ar lywodraethau a buddiannau masnachol i gyflawni ein dyletswyddau. Fodd bynnag, rydym yn atebol i'r Senedd ac, i gyflawni ein rôl yn effeithiol, mae angen i ni ymgysylltu'n agored ac yn adeiladol gyda llywodraethau. Rydym yn darparu cyngor technegol i lywodraethau (er enghraifft, ein hadolygiadau rheolaidd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus) ac, mewn rhai achosion, rydym yn gweithredu fel cynrychiolydd ffurfiol y llywodraeth (er enghraifft, mewn trafodaethau rhyngwladol ar sbectrwm).

Ein prif ddyletswydd yw hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr

- 1.3 Sefydlwyd Ofcom gan Ddeddf Swyddfa Cyfathrebiadau 2002, ac mae'n gweithredu yn unol â nifer o Ddeddfau Seneddol¹. Dywed Deddf Cyfathrebiadau 2003 mai ein prif ddyletswydd yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion yn ymwneud â chyfathrebiadau a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle y bo hynny'n briodol. Gyda gwasanaethau post, ein dyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn diogelu'r gwasanaeth post cyffredinol yn y DU. Rydym yn gweithredu ac yn gorfodi cyfreithiau'n ymwneud â diogelu defnyddwyr, cyfathrebiadau a chystadleuaeth, ac mae pwerau cystadleuaeth Ofcom yn cael eu hamlinellu yn Adran 4 isod.

Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol sy'n tywys cyfeiriad ein gwaith

- 1.4 Ein prif ddyletswyddau cyfreithiol yw:
 - sicrhau bod gan y DU amrywiaeth eang o wasanaethau cyfathrebiadau electronig;
 - sicrhau bod y sbectrwm radio yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol;
 - sicrhau bod amrywiaeth eang o raglenni radio a theledu o ansawdd uchel yn cael eu darparu gan nifer o sefydliadau gwahanol, gan apelio at amrywiaeth o ddiddordebau a chwaethau;
 - sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag deunydd niweidiol neu dramgwyddus, triniaeth annheg, ac ymyrraeth ar breifatrwydd ar y radio a'r teledu; a

¹ Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Cyfathrebiadau 2003, Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006, Deddfau Darlledu 1990 a 1996, Deddf Economi Ddigidol 2010 a Deddf Gwasanaethau Post 2011.

- sicrhau bod y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol ar wasanaethau post yn cael ei diogelu yn y DU.

1.5 Gall Ofcom orfodi cyfraith defnyddwyr ar ran defnyddwyr. Ond nid oes ganddo'r pŵer i ddatrys cwynion gan ddefnyddwyr unigol am y gwasanaeth post a'r gwasanaeth telegyfathrebiadau, yn wahanol i'r radio a theledu. Rydym yn darparu cyngor i'r rhai sy'n cwyno ac yn eu cyfeirio at gynlluniau dulliau amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yr ydym wedi'u cymeradwyo.

Adran 2

Newidiadau yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio

2.1 Wrth osod ein nodau a'n Cynllun Blynyddol, rydym wedi ystyried yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo, amgylchedd sy'n newid yn gyflym. Mae'r marchnadoedd cyfathrebiadau'n symud yn gyflym, mae anghenion defnyddwyr a busnesau'n newid, ceir technolegau gwasanaethau, dyfeisiau a rhwydweithiau newydd, a gwelir gweithgaredd sylweddol wrth i gwmnïau uno a chael eu prynu. Mae'r adran hon yn edrych yn fyr ar y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd cyfathrebiadau ar hyn o bryd.

Anghenion defnyddwyr a busnesau sy'n newid

Mae defnyddwyr cysylltiedig yn mynnu cyflymderau gwell ac ansawdd gwasanaeth gwell

- 2.2 Mae'r newid yn anghenion defnyddwyr a busnesau yn sbarduno'r galw am led band ar rwydweithiau sefydlog a symudol. Mae busnesau'n mabwysiadu gwasanaethau TG seiliedig ar system cwmwl, ac mae defnyddwyr yn defnyddio dyfeisiau cysylltiedig lluosog ar yr un pryd, gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau y mae angen llawer iawn o ddata arnynt fel ffrydio fideo. Mae dwy ran o dair o oedolion y DU yn berchen ar ffôn clyfar, ac mae gan dros hanner cartrefi'r DU gyfrifiadur tabled². Yn 2015, tyfodd y defnydd o ddata symudol yn y DU 64% a defnydd cartrefi a busnesau bach o ddata sefydlog 40%.³
- 2.3 Mae dadansoddwyr yn y diwydiant yn rhagweld y bydd y galw am ddata yn parhau i dyfu, sy'n dangos pwysigrwydd cael rhwydweithiau dibynadwy, cadarn ac o ansawdd uchel i'r holl fathau o ddefnyddiwr.

Mae gwasanaethau cyfathrebiadau gwahanol yn diwallu anghenion amrywiol defnyddwyr

- 2.4 Mae gwasanaethau seiliedig ar Brotocol Rhynggrwyd (IP) sy'n gweithredu 'dros ben' (over-the-top neu OTT) cysylltiadau data symudol a band eang yn dod yn fwyfwy cyffredin. Mae'r hyn a gynnigir drwy OTT yn cynnwys gwasanaethau galwadau llais, negeseuon testun a chynnwys fideo a oedd yn draddodiadol yn cael eu cynnig dros rwydweithiau penodol ar gyfer pob gwasanaeth.
- 2.5 Mae bwndelu gwasanaethau wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, yn dechrau gyda gwasanaethau llais a band eang ('dau wasanaeth'); wedyn yn ychwanegu cynnwys ('tri wasanaeth'); a symudol ('pedwar wasanaeth'). Mae 67% o gwsmeriaid y DU erbyn hyn yn cymryd rhyw fath o fwndel, gyda 27% yn dewis tri gwasanaeth.⁴ Mae bwndeli o fudd i ddefnyddwyr, mae'n cynnig hwylustod, prisiau is a swyddogaethau newydd. Ond, mae bwndelu hefyd yn ei gwneud yn fwy anodd i ddefnyddwyr ddewis rhwng cynigion cymhleth ac i newid darparwr, yn enwedig os

² Traciwr Technoleg Ofcom, H2, 2015, Tabl 24/39.

³ Cysylltu'r Gwledydd 2015 Ofcom, tudalennau 6, 34.

⁴ Traciwr Technoleg Ofcom, H1, 2015, Tabl 138/143/145; H2, 2015, Tabl 100.

yw'r prosesau newid neu ddyddiadau terfynu contractau'r gwasanaethau sydd wedi'u bwndelu yn wahanol.

- 2.6 Mae'r holl wasanaethau sy'n cael eu cynnig am brisiau gwahanol, gyda strwythurau tariff a thelerau contract gwahanol, yn gallu lleihau tryloywder prisiau a chymhlethu penderfyniadau i'w gwneud gan y defnyddiwr.
- 2.7 Mae twf gwasanaethau IP yn cyflwyno cyfleoedd a heriau penodol i fusnesau wrth iddynt geisio manteisio'n llawn ar yr economi ddigidol. Mae cydgyfeirio gwasanaethau cyfathrebiadau a TG yn creu mwy o ddewis, ond mwy o gymhlethdod hefyd. Mae tueddiadau fel y symud sy'n digwydd i wasanaethau system cwmwl a chyfathrebiadau IP unedig (sefydlog a symudol) yn golygu bod mwy a mwy o bwysau ar ansawdd a gwytnwch y cysylltiad rhwydwaith gwaelodol.

Technolegau rhwydwaith newydd a thechnolegau sy'n datblygu

Mae technolegau newydd yn cynnig cyflymder uwch ac ansawdd profiad gwell

- 2.8 Mae gweithredwyr rhwydweithiau sefydlog yn ceisio cynyddu cyflymderau eu rhwydweithiau presennol, gan gyfuno ffibr â chopr neu gebl. Maent hefyd yn buddsoddi mewn technolegau newydd, gan gynnwys y defnydd o gysylltiad ffibr i'r adeilad (FTTP), i ddarparu cyflymderau uwch. Mae cyflymderau band eang 'cyflym iawn' o 30Mbit yr eiliad o leiaf ar gael i 83% o adeiladau'r DU.⁵ Mae gan ddarparwyr cyfathrebiadau nifer o gynlluniau a buddsoddiadau ar y gweill i gyflwyno rhagor o rwydweithiau ffibr a gwasanaethau band eang tra chyflym.
- 2.9 Mae cwmnïau rhwydweithiau symudol hefyd yn uwchraddio eu rhwydweithiau, gan gyflwyno 4G, a defnyddio WiFi a chelloedd bach i wella'r ddarpariaeth data symudol, ac yn ystyried opsiynau ar gyfer rhannu mwy o rwydweithiau a sbectrwm i leihau costau. Mae ymchwil yn cael ei gynnal ar rwydweithiau 5G i'r dyfodol, a allai ddarparu cyflymderau llawer uwch na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

Wrth i gyflymderau gynyddu, mae technolegau rhwydweithiau gwaelodol yn cydgyfeirio

- 2.10 Mae rhwydweithiau sefydlog a symudol yn cydgyfeirio, gan gyfuno cysylltiadau di-wifr a ffibr. Gartref, mae defnyddwyr yn defnyddio dyfeisiau di-wifr wedi'u cysylltu â rhwydwaith band eang sefydlog drwy WiFi. Oddi cartref, mae'r un dyfeisiau'n cysylltu â rhwydweithiau symudol sy'n defnyddio mwy a mwy ar ôl-gludo ffibr sefydlog. Os bydd y patrymau hyn yn parhau, bydd rhwydweithiau sefydlog a symudol yn dechrau edrych yn debyg iawn: y naill a'r llall yn defnyddio ffibr i drosglwyddo data i ymyl y rhwydwaith, a defnyddio technolegau di-wifr i gysylltu â dyfeisiau defnyddwyr.

Tra mae technolegau newydd yn cael eu datblygu, mae eraill o bosibl yn dod i ddiwedd eu hoes

- 2.11 Gyda chydgyfeiriant rhwydweithiau symudol a sefydlog, a mwy o dechnolegau IP yn cael eu defnyddio dros y rhwydweithiau hyn, efallai fod nifer o hen dechnolegau yn dod i ddiwedd eu hoes. Er enghraifft, mae darparwyr cyfathrebiadau, gan gynnwys BT a Virgin Media, yn bwriadu diffodd eu rhwydweithiau ffôn cyhoeddus (PSTN) dros amser. Bydd angen rheoli unrhyw drawsnewid o'r fath yn ofalus i sicrhau bod

⁵ Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr, Mai 2015.

gwasanaethau pwysig yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel i dechnolegau mwy newydd a bod defnyddwyr bregus yn cael eu gwarchod yn briodol.

Uno a phrynu cwmnïau

Mae gan weithgaredd Uno a Phrynu sylweddol oblygiadau i'r tirwedd rheoleiddio

- 2.12 Mae gweithgaredd Uno a Phrynu sylweddol wedi cael ei gynnig a'i weithredu yn y marchnadoedd cyfathrebiadau mewn blynyddoedd diweddar. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys uno o fewn y farchnad (e.e. bwriad 3UK i brynu O2 UK), uno ar draws marchnadoedd (e.e. BT yn prynu EE), ac uno rhyngwladol (e.e. Liberty Global yn prynu Virgin Media). Mae cwmnïau rhyngwladol hefyd wedi prynu darlledwyr, cynhyrchwyr cynnwys a gorsafoedd radio masnachol yn y DU.
- 2.13 Mae cydgyfeirio'n dod â manteision. Mae rhagor o bosibiliadau yn galluogi gweithredwyr i gynnig gwasanaethau wedi'u bwndelu a chyfuno rhannau gwahanol o'u rhwydweithiau. Mae bod yn fwy o faint yn lledaenu costau datblygu a buddsoddi mewn rhwydweithiau dros sylfaen tanysgrifwyr ehangach. Ond, gall cydgyfeirio yn y farchnad olygu risgiau o ran dewis i ddefnyddwyr, ac os bydd yn lleihau'r dwysedd cystadleuol, gall effeithio ar fuddsoddi, arloesi a phrisiau i ddefnyddwyr.

Adran 3

Ein nodau ac uchafbwyntiau ar gyfer 2016/17

3.1 Mae Ofcom yn bodoli i sicrhau bod y marchnadoedd cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. I gyflawni hyn, mae gennym dri nod lefel uchel a hirdymor:

Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

3.2 I gyflawni ein nodau, mae angen i ni roi sylw i heriau penodol yn ein sectorau.

3.3 Isod, rydym yn esbonio beth yw pob nod a'r dull y bwriadwn ei ddefnyddio i gyflawni'r nod hwn. Rydym hefyd yn darparu cyd-destun yng nghyswllt yr ystyriaethau penodol a fydd yn llywio ein gwaith yn 2016/17, ac yn amlygu rhai o'r meysydd allweddol arfaethedig yn ein cynllun gwaith ar gyfer 2016/17 a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein nodau.

3.4 Mae rhagor o fanylion am ein cynllun gwaith ehangach gan gynnwys y meysydd gwaith hyn a amlygir, yn Atodiad 1. Yn ychwanegol at y meysydd penodol hyn, mae ein gwaith rhaglennol ehangach yn cefnogi'r nodau hyn yn barhaus (Adran 5).

1. Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

3.5 **Ein nod** yw sicrhau bod defnyddwyr a busnesau yn gallu elwa o amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau cyfathrebiadau, a bod y farchnad yn gallu sicrhau canlyniadau da o ran dewis, pris, ansawdd, buddsoddi ac arloesi.

3.6 **Gwnawn hyn drwy** sicrhau bod marchnadoedd yn gallu gweithio'n effeithiol, drwy reoleiddio lle bo'n briodol, er mwyn i ddefnyddwyr allu elwa o fanteision cystadleuaeth.

3.7 **Eleni**, mae'n bosibl y bydd newid sylweddol o ran fframweithiau polisi a rheoleiddio, a fydd yn diffinio ein cynllun gwaith i raddau helaeth yn 2016/17. Mae ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol yn parhau. Ar yr un pryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn adolygu'r fframwaith rheoleiddio Ewropeaidd ehangach. Ar draws ein sectorau, mae'n bosibl y ceir cryn dipyn y gydgyfeirio yn y farchnad. Yn y cyd-destun hwn, mae angen i ni sicrhau bod defnyddwyr a busnesau'n parhau i elwa o gystadleuaeth a dewis, a'u bod yn cael gwybodaeth gywir, hygyrch, y gellir ei chymharu er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus.

Meysydd i'w hamlygu o'n cynllun gwaith ar gyfer 2016/17:

3.8 **Creu'r cyfle i ddefnyddio mwy o rwydweithiau tra chyflym ar raddfa fawr.** Yn dilyn *Casgliadau Cychwynnol* ein Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol, byddwn yn ymestyn ac yn gwella'r mynediad at bolion telegraff a phibellau Openreach, er mwyn caniatáu i gwmnïau sy'n cystadlu ddefnyddio eu rhwydweithiau ffibr eu hunain.

- 3.9 **Rhoi ein cynigion ar waith i wella annibyniaeth Openreach.** Er bod y cyfle i gael mwy o rwydweithiau tra chyflym yn cael ei greu, bydd y gystadleuaeth sy'n seiliedig ar fynediad i rwydwaith Openreach yn dal yn hanfodol er mwyn cael canlyniadau da i fusnesau ac i ddefnyddwyr. Byddwn yn diwygio'r ffordd y mae Openreach yn cael ei lywodraethu, gan gryfhau ei annibyniaeth ar BT, er enghraifft, drwy greu is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr iddo. Byddwn yn paratoi cynnig i'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n sicrhau'r annibyniaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer Openreach.
- 3.10 **Sicrhau bod y fframweithiau rheoleiddio Ewropeaidd yn gweithio er budd y DU,** wrth iddynt addasu i newidiadau yn y farchnad o ran cyfuno, cydgyfeirio, technolegau newydd ac ymddygiad newydd gan ddefnyddwyr. Byddwn yn cymryd rhan flaenllaw, gyda Llywodraeth y DU, mewn cynlluniau Ewropeaidd o dan Strategaeth y Farchnad Ddigidol Sengl, yn arbennig yn yr adolygiad o'r Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer Rhwydweithiau Cyfathrebiadau Electronig.
- 3.11 **Cefnogi cystadleuaeth yn y gwasanaethau llinell sefydlog drwy ein hadolygiadau o'r farchnad,** i sicrhau bod defnyddwyr a busnesau'n manteisio'n llawn ar ddewis, pris, buddsoddi, arloesi ac ansawdd gwasanaethau wrth i farchnadoedd ddatblygu.
- 3.12 **Gwella gallu defnyddwyr a busnesau i wneud dewisiadau gwybodus** drwy ddarparu gwybodaeth glir, hygyrch a manylach, gan gynnwys rhagor o fanyldeb am y ddarpariaeth band eang symudol, cyflymderau band eang sefydlog ac ansawdd gwasanaethau. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar newid ac yn cyflawni ein hymrwymiad i wella gallu busnesau bach a chanolig i gyfrannu at y farchnad.
- 3.13 **Monitro cynnydd mewn prisiau, darparu cyngor a gwybodaeth am brisiau, a sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael gwerth gan eu darparwyr cyfathrebiadau,** gan gynnwys diogelu defnyddwyr nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad.

2. Sicrhau safonau a gwella ansawdd

- 3.14 **Ein nod** yw sicrhau bod cyfathrebiadau a gwasanaethau yn fforddiadwy, yn hygyrch ac ar gael yn eang i ddefnyddwyr ledled y DU a'u bod o ansawdd o da.
- 3.15 **Gwnawn hyn drwy** gydnabod na all cystadleuaeth ei hun, er bod cystadleuaeth wrth wraidd ein dull o sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr, ddarparu'r ystod lawn o ganlyniadau a ddymunwn. Lle bo hyn yn berthnasol, rydym yn gwneud ymyriadau wedi'u targedu i wella canlyniadau i ddefnyddwyr a dinasyddion.
- 3.16 **Eleni,** byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod pawb yn y DU yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebiadau o ansawdd uchel sy'n hollbwysig i fod yn rhan o gymdeithas. Bydd ein gwaith ar draws y gwasanaethau symudol a sefydlog yn ceisio sicrhau bod pob defnyddiwr a busnes yn gallu manteisio ar fod yn gysylltiedig. Bydd datblygiadau mewn gwasanaethau cynnwys yn parhau i dywys ein gwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn manteisio ar safonau da.

Meysydd i'w hamlygu o'n cynllun gwaith ar gyfer 2016/17:

- 3.17 **Cefnogi'r gwaith o weithredu rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol newydd ar gyfer band eang,** gan roi'r hawl i bawb gael gwasanaeth band eang digonol.
- 3.18 **Sicrhau newid sylweddol yn ansawdd gwasanaethau telegyfathrebu,** drwy osod targedau gwasanaeth mwy llym ar Openreach, gorfodi cadarn a dirwyon am

danberfformio, tablau cynghrair newydd yn dangos perfformiad ar gyfer pob gweithredwr, ac iawndal awtomatig i ddefnyddwyr a busnesau pan fydd pethau'n mynd o chwith.

- 3.19 **Rhoi casgliadau proses Adnewyddu Siarter y BBC ar waith**, lle bo'n berthnasol. Mae'r siarter presennol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2016. Gallai canlyniadau'r broses adnewyddu arwain at newidiadau yn rôl reoleiddiol Ofcom o amgylch y BBC, gyda goblygiadau i'n cynllun gwaith.

3. Diogelu defnyddwyr rhag niwed

- 3.20 **Ein nod** yw sicrhau nad yw defnyddwyr yn wynebu arferion cyfrwys a bod defnyddwyr bregus yn cael eu diogelu rhag unrhyw niwed penodol y maent yn agored iddi.
- 3.21 **Gwnawn hyn drwy** ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig grwpiau bregus sydd mewn perygl o gael eu niweidio. Rydym yn rhoi rhagor o fesurau ar waith os oes risg y bydd rhywun yn agored i ymddygiad niweidiol gan gwmnïau neu i gynnwys tramgwyddus ar y teledu neu'r radio.
- 3.22 **Eleni**, bydd ein gwaith yn parhau i gydnabod y gall marchnadoedd effeithiol barhau i ddarparu canlyniadau gwael i ddefnyddwyr a dinasyddion mewn rhai achosion. Bydd ein hymchwiliadau a'n gwaith gorfodi yn parhau i gael ei yrru gan faterion a ddaw i'r wyneb neu sy'n newid yn ystod y flwyddyn. Dyma'r ffordd orau o roi sylw i'r materion sy'n bwysig i ddefnyddwyr. Yn benodol, rhagwelwn y byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar alwadau niwsans.

Meysydd i'w hamlygu o'n cynllun gwaith ar gyfer 2016/17:

- 3.23 **Rhoi sylw i alwadau niwsans** drwy weithio gyda darparwyr cyfathrebiadau'r DU i fonitro a blocio traffig galwadau problemus; gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chyrrff eraill i leihau galwadau o'r fath; a chymryd camau gorfodi yn erbyn y rheini sy'n cynhyrchu galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael.
- 3.24 **Parhau i ymateb i faterion newydd sy'n ymwneud â defnyddwyr** drwy ein rhaglen ddiogelu, gan gynnwys ymchwiliadau. Mae'r ymchwiliadau presennol a allai barhau yn 2016/17 yn cynnwys ein gwaith ar brosesau canslo ac ar ddelio â chwynion.

Ein hagwedd at reoleiddio yn 2016/17

- 3.25 I gyflwyno ein pwrpas o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb, mae'n hanfodol fod y rheoliadau sy'n berthnasol i'r marchnadoedd cyfathrebiadau'n dal yn briodol. O dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, mae'n ofynnol i Ofcom leihau'r baich mae'n ei roi ar y cwmnïau mae'n eu rheoleiddio. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni adolygu'r broses reoleiddio'n gyson er mwyn sicrhau nad yw (a) yn gosod beichiau diangen; neu (b) yn parhau i greu beichiau sydd bellach yn ddiangen. Mae'n rhaid i Ofcom leihau neu gael gwared â beichiau diangen lle mae'n dod ar eu traws. Mae'r gofynion hyn yn sail i'n holl waith rheoleiddio, gan gynnwys ein rhaglen o adolygiadau marchnad. Hefyd, bydd rhai gweithgareddau yn 2016/17 yn edrych yn benodol ar y posibilrwydd o ddileu neu newid y rheoliadau rydym yn eu gosod.
- 3.26 Mae Adolygiad Strategol Ofcom wedi pennu rhagor o feysydd posibl ar gyfer dadreoleiddio a rheoleiddio wedi'i dargedu. Bydd ein ffocws strategol newydd ar gystadleuaeth rhwng rhwydweithiau yn creu cyfleoedd i fod yn effeithiol dros amser

wrth dargedu dadreoleiddio. Bydd ein rhaglen arfaethedig o adolygiadau marchnad yn ystyried i ba raddau y gallwn ddadreoleiddio gwasanaethau ffôn llais traddodiadol, ond gan roi amddiffyniad addas i ddefnyddwyr bregus a'r rheini sy'n dibynnu ar eu llinell sefydlog.

- 3.27 Mae rheoliadau Ofcom ar gyfer diogelu defnyddwyr yn cael eu hategu gan yr "Amodau Hawliau Cyffredinol", set o ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i rwydweithiau neu ddarparwyr cyfathrebiadau electronig lynu wrthynt. Yn 2016/17 byddwn yn adolygu'r Amodau Cyffredinol hyn, ac yn ystyried i ba raddau y mae bob un ohonynt yn dal yn briodol. Efallai y bydd yr adolygiad hwn yn arwain at ddileu rhai o elfennau'r Amodau Cyffredinol, neu at addasu rhai o'r Amodau presennol. Byddwn yn ymgynghori ar unrhyw gynigion ar gyfer newid yn y ffordd arferol.
- 3.28 Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU yn 2016/17 i weithredu unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'n hadolygiad o brosesau rheoleiddio radio, gan gynnwys unrhyw ddadreoleiddio posibl. Mae'r adolygiad yn ystyried lleolrwydd a fformatau cerddoriaeth.

Adran 4

Cyflawni ein nodau ledled y DU

4.1 Bydd angen i ni gyflawni yng nghyswllt ein nodau ar gyfer defnyddwyr a busnesau ledled gwledydd y DU. Mae gan wahaniaethau cenedlaethol a rhanbarthol oblygiadau i'r ffordd yr ydym yn gweithio a sut yr ydym yn sicrhau canlyniadau da i ddefnyddwyr a busnesau. Rydym yn ystyried y gwahaniaethau hyn yn ar draws ein cynllun gwaith.

Mae anghenion defnyddwyr gwledig a BBaCh yn cyflwyno heriau ar draws y gwledydd

- 4.2 Mae darparu gwasanaethau post, symudol a band eang i ardaloedd gwledig yn cyflwyno heriau penodol, o gofio am eu daearyddiaeth economaidd. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u lleoli yn anghymesur yng Nghymru, Gogledd Iwerddon, yr Alban a rhai o ranbarthau Lloegr. Mae gwasanaethau cyfathrebiadau o ansawdd da yn hanfodol i brofiadau defnyddwyr, cyfranogiad dinasyddion a mynediad i wasanaethau cyhoeddus, ac i lwyddiant BBaCh.
- 4.3 Yn 2016/17, bydd Ofcom yn parhau i adolygu'r Post Brenhinol, gan gynnwys y farchnad parseli a chodi taliadau ychwanegol ar barseli yn Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban, a Gogledd Iwerddon. Bydd *Cysylltu'r Gwledydd* a'n hadroddiad ar y *Marchnadoedd Cyfathrebiadau* yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau cyfathrebiadau ar draws ac o fewn y gwledydd o ran y ddarpariaeth band eang a symudol, y nifer sy'n manteisio arnynt, y defnydd a phrofiad y defnyddiwr ohonynt, gan gynnwys amrywiaethau rhwng defnyddwyr trefol a gwledig.
- 4.4 Mae ein cynllun gwaith ehangach yn cynnwys blaenoriaethu'r gefnogaeth a roddwn i'r Llywodraeth ar weithredu'r USO band eang a darparu gwybodaeth fanylach am y ddarpariaeth band eang a chyflymderau. Mae ein Hadolygiad Strategol yn disgrifio ein gwaith i alluogi rhagor o fuddsoddiad mewn rhwydweithiau sefydlog ac i ystyried yr opsiynau ar gyfer ymestyn y ddarpariaeth symudol drwy geisio cael rhwymedigaethau darpariaeth newydd ar sbectrwm, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Bydd y gwaith hwn yn ystyried anghenion defnyddwyr ym mhob gwlad. Bydd angen gweithredu i sicrhau bod defnyddwyr yn yr ardaloedd mwy anghysbell ym mhob un o'r gwledydd yn parhau i gael eu cynnwys.
- 4.5 Bydd ein cynllun gweithredu yng nghyswllt busnesau bach a chanolig yn parhau i ystyried anghenion penodol BBaCh ym mhob gwlad. Byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfriad darlledwyr ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus ag amodau trwyddedau, yng nghyswllt rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain a Lloegr, yn ogystal ag ystyried y ffordd orau o sicrhau bod cynnwys lleol yn parhau i gael ei gynhyrchu a'i ddarlledu, gan ystyried canlyniad proses adnewyddu Siarter y BBC.
- 4.6 Er bod yr heriau hyn yn gyffredin ar draws y gwledydd, mae gan bob gwlad ei phroblemau penodol ei hun. Hefyd, mae'r gwaith o ddatganoli rhagor o bwerau i lywodraethau a deddfwrfeydd y gwledydd yn parhau, a hefyd cynigion ar gyfer datganoli pwerau yn Lloegr. Isod, rydym yn disgrifio ein gwaith arfaethedig ar gyfer pob gwlad a sut y byddwn yn ymgysylltu â'r cyrff datganoledig ledled y DU.

Lloegr

- 4.7 Roedd yr *Adolygiad PSB* diweddaraf wedi codi pryderon cynulleidfaoedd nad yw pobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac o gefndiroedd dwyrain Ewropeaidd yn cael eu cynrychioli a'u gwasanaethu'n ddigonol gan gynnwys teledu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Yn 2016/17, bydd Ofcom yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol i ddarparu arweiniad ar hyrwyddo amrywiaeth mewn darlledu ledled y DU.
- 4.8 Yn ogystal â mater cysylltedd mewn ardaloedd gwledig, mae'r dwysedd poblogaeth uchel yn ardaloedd trefol Lloegr (a Llundain yn arbennig) yn cyflwyno heriau gwahanol i weithredwyr rhwydweithiau. Bydd ein gwaith ar gyflymderau band eang symudol, ac ymchwil ymysg defnyddwyr ar dderbyniad a mynediad hwylus yn ein helpu i ganfod problemau yn ymwneud â rhwydwaith ac ansawdd gwasanaeth, gan gynnwys unrhyw broblemau posibl ar gyfer defnyddwyr trefol.

Gogledd Iwerddon

- 4.9 Mae ffin Gogledd Iwerddon â Gweriniaeth Iwerddon yn cyflwyno heriau unigryw, gan gynnwys y risg o ffioedd crwydro rhyngwladol pan fydd ffonau symudol defnyddwyr yn codi rhwydwaith Gwyddelig. Byddwn yn parhau â'n cysylltiadau gweithio cryf ag awdurdodau rheoleiddio Iwerddon, gan gydlyn ein dull gweithredu ar gyfer nifer o heriau trawsffiniol, gan ystyried y ddeddfwriaeth Ewropeaidd newydd ar ffioedd crwydro.
- 4.10 Nid yw'r model gwahanu rhwng BT ac Openreach sy'n bodoli ar hyn o bryd ym Mhrydain Fawr yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Yn hytrach, mae is-adran cyfanwerthol BT Iwerddon yn gweithredu ac yn cynnal y rhwydwaith ar ran Grŵp BT. Byddwn yn ystyried a yw'r gwahaniaethau presennol yn strwythur BT, a'r ffordd mae'n cael ei lywodraethu ledled y DU, yn dal yn briodol wrth i ni ddatblygu cynigion ar fodel gwahanu newydd. Fel man cychwyn, credwn y dylai'r un model fod yn berthnasol ledled y DU, gyhyd â'n bod yn fodlon na fyddai trefniant o'r fath yn anghymesur.
- 4.11 Byddwn yn parhau i weithio gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, y Cynulliad a'r cynghorau lleol sydd newydd eu ffurfio. Byddwn yn cynnig cyngor rheoleiddiol a thechnegol, yn arbennig i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth band eang gwell a darpariaeth symudol well.

Yr Alban

- 4.12 Mae'r cynigion y cytunwyd arnynt gan Gomisiwn Smith a Bil yr Alban sydd gerbron Senedd y DU yn rhoi cyd-destun newydd i'n gwaith yn yr Alban. Byddwn yn paratoi ar gyfer penodi aelod o Fwrdd Ofcom ar gyfer yr Alban, a datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ar gyfer ein perthynas â Llywodraeth a Senedd y DU a Llywodraeth a Senedd yr Alban. Byddwn hefyd yn cydgysylltu â chymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban yn yr Uned Polisi Cystadleuaeth a Defnyddwyr i gefnogi'u rôl mewn marchnadoedd perthnasol.
- 4.13 Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i Lywodraeth yr Alban a Phwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys drwy ddarparu cyngor technegol, cynnal ymchwil manylach, a chefnogi cynlluniau cyfranogiad digidol.

- 4.14 Byddwn yn cynyddu ein hamlygrwydd a'n presenoldeb yn yr Alban yn 2016/17, gan gynnwys drwy roi mwy o adnoddau i'n swyddfa yng Nghaeredin.

Cymru

- 4.15 Byddwn yn parhau i weithredu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer Safonau'r Gymraeg, a fydd maes o law yn disodli'r Cynllun iaith Gymraeg presennol.
- 4.16 Mae datganoli'n parhau, a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i wella'r gwasanaethau cyfathrebu ym mhob rhan o Gymru, drwy gynnig cyngor technegol a rheoleiddiol, yn arbennig i gefnogi'r gwaith o gyflwyno band eang gwell a darpariaeth symudol well. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i benodi aelod ar ran Cymru i fwrdd Ofcom, a datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol.

Adran 5

Gwaith sy'n parhau i gyflawni ein dyletswyddau

- 5.1 Uchod, rydym wedi disgrifio meysydd gwaith allweddol a fydd yn ein helpu i gyflawni ein nodau yn 2016/17. Dyma feysydd gwaith sy'n berthnasol iawn yn 2016/17, gan fod ynddynt elfennau sylweddol a phenodol i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf yn wahanol i'r rheini mewn blynyddoedd eraill.
- 5.2 Ochr yn ochr â'r meysydd gwaith hyn y mae ein rhaglen waith barhaus ehangach, sydd hefyd yn ein helpu i gyflawni ein nodau. Fel arfer, nid yw ein ffordd o gyflwyno'r gwaith hwn yn newid yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn. Mae'n cynnwys llawer o weithgareddau pwysig sy'n hanfodol i sicrhau bod defnyddwyr yn cael canlyniadau da yn y marchnadoedd cyfathrebiadau. Mae llawer o'r gwaith hwn yn orfodol, gan ei fod yn ofynnol dan statud.

Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

Dyrannu rhifau

- 5.3 Mae gan Ofcom ddyletswydd i ddyrannu rhifau ffôn daearyddol i ddarparwyr cyfathrebiadau, sydd wedyn yn eu rhoi i ddefnyddwyr. Rydym yn sicrhau y gwneir y defnydd effeithlon o rifau, gan leihau'r angen am fesurau costus sy'n tarfu i fynd i'r afael â phrinder rhifau.

Monitro teledu drwy dalu

- 5.4 Mae Ofcom yn tracio datblygiadau yn y farchnad ar draws cadwyn gwerth teledu drwy dalu. Ein hamcanion yw sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o brofiad defnyddwyr a'r gystadleuaeth yn y farchnad adwerthu wrth i'r sector ddatblygu, a monitro unrhyw bryderon o ran mynediad at gynnwys teledu drwy dalu (gan gynnwys cyflenwi cynnwys chwaraeon premiwm) a llwyfannau teledu, a fydd yn ein galluogi i ymyrryd yn gyflym os bydd raid.

Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Astudiaethau technegol sy'n rhoi gwybodaeth am y gofynion ar gyfer sbectrwm yn y dyfodol

- 5.5 Ofcom sy'n gyfrifol am sicrhau bod sbectrwm radio yn y DU yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon. Mae'r nod hwn yn cynnwys cynllunio ar gyfer gofynion sbectrwm yn y dyfodol ar gyfer data symudol ac ôl-gludo di-wifr sefydlog, ymysg gwasanaethau eraill. Bydd ein rhaglen waith yn cynnwys astudiaethau technegol ar gyfer darpar fandiau sydd wedi'u pennu ar gyfer 5G yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd 2015. Bydd hefyd yn cynnwys ymchwilio i gyfleoedd i rannu sbectrwm, a'u gweithredu, gan gynnwys modelau ymledu a'r defnydd ohonynt, a gwella'n dealltwriaeth o'r defnydd o sbectrwm yn y sectorau gwyyddor y gofod a lloeren.

Awdurdodi sbectrwm

- 5.6 Mae Ofcom yn cynllunio'r defnydd effeithlon o'r sbectrwm radio yn y DU mewn ffyrdd sy'n lleihau ar ymyriant rhwng defnyddwyr ac yn sicrhau'r manteision gorau posibl i ddefnyddwyr. Rydym yn awdurdodi'r defnydd o sbectrwm drwy gyflwyno trwyddedau neu drwy wneud rheolau i ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio heb drwydded.

Sicrhau a gorfodi sbectrwm

- 5.7 Mae Ofcom yn darparu cyngor a chymorth i helpu i ddatrys ymyriant niweidiol i ddefnyddwyr sbectrwm. Mae ein Tîm Gorfodaeth a Pheirianeg Sbectrwm yn delio ag adroddiadau o ymyriant ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau i ddiogelu a rheoli sbectrwm y DU. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys ymateb i ymyriant i gyfathrebiadau sy'n diogelu bywyd ac atal y defnydd diawdurdod o sbectrwm. Rydym yn defnyddio gorfodaeth sy'n gymesur, yn unol â'n dyletswyddau statudol a'n hegwyddorion rheoleiddio.

Trwyddedau darlledu teledu a radio

- 5.8 Ofcom sy'n gyfrifol am drwyddedu holl wasanaethau teledu masnachol y DU yn lleol ac yn genedlaethol. Ni sy'n gyfrifol am drwyddedu pob gwasanaeth radio cymunedol a masnachol analog a digidol. Mewn achosion difrifol o beidio â chydymffurfio â gofynion trwydded, gall Ofcom ddirymu trwyddedau.

Gorfodi safonau rhaglenni

- 5.9 Rhaid i Ofcom sicrhau bod cynnwys gwasanaethau radio a theledu yn cyrraedd safonau penodol. Gall aelodau'r cyhoedd gwyno wrth Ofcom yn uniongyrchol am gynnwys a ddarlledir ar raglenni teledu neu radio os credant nad yw'r rhaglenni hyn yn cyrraedd y safonau hyn. Mae Ofcom yn rhoi ystyriaeth i bob cwyn sy'n dod i law yn erbyn y Cod Darlledu, ac unrhyw ganllawiau a chodau perthnasol eraill.

Gwasanaethau rhaglenni ar-alwad

- 5.10 Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod cynnwys a ddarperir gan wasanaethau rhaglenni ar-alwad yn cadw at y rheolau a'r canllawiau ar gyfer diogelu cynulleidfaoedd.

Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

- 5.11 Mae gan Ofcom ddyletswydd i sicrhau bod gweithredwyr rhwydweithiau yn dylunio ac yn gweithredu rhwydweithiau yn unol ag arferion diogelwch da ac rydym yn gweithio i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n canllawiau. Mae gennym ddyletswydd ychwanegol gysylltiedig i gasglu adroddiadau ar fethiannau rhwydweithiau, y darparwn i'r Comisiwn Ewropeaidd. Rydym yn mynd ar drywydd digwyddiadau sydd wedi bod yn destun pryder i ddeall y rheswm amdanynt a'r camau a gymerwyd i ymateb, er mwyn lleihau'r risg i'r dyfodol.

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Diogelu defnyddwyr a gorfodi cystadleuaeth

- 5.12 Mae gan Ofcom rôl yn gorfodi'r amodau rheoleiddio mae'n eu gosod ar ddarparwyr cyfathrebiadau, yn ogystal â gorfodi cyfraith defnyddwyr yn gyffredinol yn ein

meysydd cyfrifoldeb ni. Mae Ofcom hefyd yn gwneud penderfyniadau mewn anghydfodau rhwng darparwyr gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig. Mae ein timau ymchwiliadau'n asesu cwynion ac anghydfodau ac yn sicrhau ein bod yn ymateb yn gyflym, yn gadarn ac yn effeithiol. Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda chyrrff defnyddwyr a grwpiau eiriolaeth, gan gynnwys y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau.

Monitro gweithrediad gwasanaethau cyfnewid testun y genhedlaeth nesaf

- 5.13 Bydd Ofcom yn monitro gweithrediad gwasanaeth cyfnewid testun y 'genhedlaeth nesaf' a gyflwynwyd yn 2014, a'r nifer sy'n ei ddefnyddio. Mae gwasanaeth cyfnewid testun yn galluogi pobl sydd â nam ar eu clyw neu ar eu lleferydd i gyfathrebu ag eraill dros y ffôn. Byddwn yn sicrhau bod darparwyr cyfathrebiadau'n cynnig mynediad i ddefnyddwyr at y gwasanaeth, ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall profiad y defnyddwyr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cyflawni eu hamcanion.

Gwaith arall ar draws ein nodau

Ymchwil i'r Farchnad

- 5.14 Mae Ofcom yn cynnal rhaglen ymchwil eang i farchnadoedd cyfathrebiadau ac ymddygiad defnyddwyr a beth sydd orau ganddynt. Mae'r ymchwil hwn yn ein helpu wrth gyflawni ein dyletswyddau ehangach, ac yn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drwyadl a chyfredol o ddefnyddwyr yn y marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio. Mae ein calendr [Statistical Release](#) yn darparu dolenni i gyhoeddiadau a data allweddol.

Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu

- 5.15 Mae dyletswyddau statudol Ofcom yn cynnwys hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae'r ddyletswydd hon yn ymestyn i gyflogaeth, ac i ddatblygiad cyfleoedd hyfforddi, yn y diwydiannau darlledu teledu a radio, i gefnogi menywod a phobl o gefndiroedd ethnig. Mae gan Ofcom hefyd ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl. Rydym yn parhau i weithio gyda'r cymunedau hyn i wella cyfle cyfartal yn y sector darlledu ledled y DU.

Ymgysylltu â llywodraethau'r DU a chyrrff eraill ar fater diogelu cynulleidfaeodd

- 5.16 Mae Ofcom yn parhau i ymgysylltu â llywodraethau, rheoleiddwyr y cyfryngau a'r diwydiant i archwilio opsiynau i ddarparu gwarchodaeth fwy cyson i gynulleidfaeodd yn y cyfryngau traddodiadol ac ar-lein. Hefyd, mae gan Ofcom rôl o hyd yn cefnogi Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngwrld sy'n dod o dan y Llywodraeth, sy'n cynnwys parhau â'n gwaith i hyrwyddo arferion gorau gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol.

Ymgysylltu â llywodraethau'r DU a chyrrff eraill ar faterion technegol

- 5.17 Mae Ofcom yn ymgysylltu â llywodraethau a nifer o gyrff eraill ar draws y DU, gan roi cyngor ar faterion technegol. Rydym yn cynghori llywodraethu'r DU ar faterion argaeledd drwy ein gwaith fel rhan o'r Tasglu Cynhwysiant a Seilwaith Digidol, ac rydym yn darparu cefnogaeth ar gyfer gweithredu'r Gyfarwyddeb Seilwaith Sifil ac ar gyfer gwella'r ddarpariaeth symudol ar drenau. Rydym hefyd yn cynghori uned rheoli ganolog Llywodraeth y DU, er mwyn gallu rhyddhau neu rannu sbectrwm y sector cyhoeddus ar gyfer defnydd sifil. Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd

Gwybodaeth a sefydliadau eraill ar faterion megis lleihau traffig galwadau problemus, ac ystyried atebion i broblemau preifatrwydd data ar gyfer y Rhyngwrwd Pethau.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid rhyngwladol

- 5.18 Mae Ofcom yn ymgysylltu â nifer o randdeiliaid rhyngwladol ym maes rheoleiddio cyfathrebiadau, i ddysgu o'u profiadau, ac i helpu i lunio ystyriaethau polisi er budd defnyddwyr y DU. Rydym yn cyfrannu'n rhagweithiol at y rhwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd, fel Corff Rheoleiddwyr Cyfathrebiadau Electronig Ewrop, Grŵp Polisi Sbectwm Radio, a'r Grŵp Rheoleiddio Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Clyweledol. Rydym yn cynrychioli'r DU, o dan Gyfarwyddyd y Gweinidog, yn yr Undeb Telegyfathrebiadau Rhyngwladol ac, fel rhan o hwn, yn arwain dirprwyaeth y DU yng Nghynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd ac yng Nghynulliad Safoni Telegyfathrebiadau'r Byd.

Pwerau Ofcom o dan y gyfraith cystadleuaeth

- 5.19 Mae ein gwaith rhaglennol a ddisgrifir uchod yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio, fel y nodir yn Adran 1. Yn ogystal â'n cyfrifoldebau rheoleiddio, mae gennym bwerau yng nghyswllt materion cyfathrebiadau;⁶ i:
- orfodi gwaharddiadau *ex post* cytundebau gwrthgystadleuol a'r camddefnydd o safle goruchafol a nodir yn Neddf Cystadleuaeth 1998 a'r darpariaethau cyfatebol o dan y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd; ac
 - ymchwilio i farchnadoedd a chyfeirio materion o dan Ddeddf Menter 2002 at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).
- 5.20 Bydd Ofcom yn ystyried a yw'n fwy priodol arfer pwerau'r Ddeddf Cystadleuaeth neu'r pwerau sectoraidd mewn unrhyw achos penodol, yn amodol ar ofynion penodol y ddeddfwriaeth.
- 5.21 Mae gan ein pwerau cystadleuaeth hefyd oblygiadau i'n gwaith. Dyma'r achosion rydym yn ymchwilio iddynt ar hyn o bryd yn unol â'n pwerau o dan y gyfraith cystadleuaeth:
- cwyn gan Whistl UK Limited ynghylch y prisiau a'r telerau ac amodau a gynigir gan Royal Mail Group Limited ar gyfer rhoi mynediad at wasanaethau danfon llythyrau penodol; a
 - cwyn gan Virgin Media Limited yn ymwneud â gwerthu hawliau cyfryngau clyweledol byw yn y DU ar gyfer gemau'r Uwchgynghrair.

⁶ Mae'r term 'materion cyfathrebiadau' yn cynnwys gwahanol agweddau ar gyfathrebiadau electronig, yn ogystal â darlledu a darparu gwasanaethau post. Rydym yn defnyddio'r pwerau hyn ar y cyd â'r CMA.

Adran 6

Sicrhau gwerth am arian

Byddwn yn parhau i ddarparu arbedion effeithlonrwydd ac arbedion arian

- 6.1 Mae Adolygiad Gwariant y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2015 yn disgrifio ei chynlluniau i leihau'r diffyg yn y cyllid cyhoeddus. Disgwylir y bydd rhagor o arbedion sylweddol yn cael eu gwneud gan gyrrff y sector cyhoeddus.
- 6.2 Bydd Ofcom yn chwarae'i ran yn ateb yr her sy'n wynebu cyllid cyhoeddus. Mae ein cynigion ar gyfer 2016/17 yn adeiladu ar record Ofcom yn lleihau ein cyllideb; mae Ofcom wedi sicrhau arbedion cyllidebol am 11 mlynedd yn olynol mewn termau real, a byddwn yn parhau i leihau ein gwariant lle y gallwn.

Ein cyllideb ar gyfer 2016/2017

- 6.3 Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016/17 yn adeiladu ar arbedon effeithlonrwydd blaenorol ac mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i ddarparu gwerth am arian. Rydym wedi pennu meysydd lle credwn y gallwn wneud pethau'n wahanol, gan ymateb i heriau newydd yn y marchnadoedd a reoleiddiwn. Yng ngoleuni hyn, rydym wedi gosod cyllideb o £114.3m, yr un fath â'n cyllideb yn 2015/16, sy'n cynrychioli gostyngiad o 1.5% ers 2015/16 mewn termau real⁷.
- 6.4 Mae costau ar gyfer 2016/17 yn ôl sector rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi yn ein [Tablau Tariff](#), ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae ein cynllun gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y tariffau rydym wedi'u gosod, a does dim newid wedi bod yn y dull rydym wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r costau hyn.

Sut byddwn yn rheoli ein hadnoddau yn 2016/17

- 6.5 Byddwn yn parhau i ystyried sut yr ydym yn cyflawni ein gwaith i sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gydnaws â'n nod i wneud i'r marchnadoedd cyfathrebiadau weithio i bawb. Os yw'r adnoddau'n gyfyngedig, byddwn yn gwneud dewisiadau, wedi'u tywys gan ein nodau a'n dyletswydd i hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr. Rydym wedi cynnal adolygiad mewnol i edrych ar yr heriau y mae Ofcom yn eu hwynebu, a sut y dylem ymateb i'r heriau hyn, i sicrhau y byddwn mor effeithiol â phosibl yn y dyfodol.
- 6.6 Mae ein hadolygiad mewnol wedi asesu ein gofynion o ran eiddo, gan edrych ar leoliad ein timau, ac ar drefniadau gweithio mwy ystwyth i gydweithwyr, i helpu i leihau ein hól-troed yn Llundain a sicrhau rhagor o fesurau effeithlonrwydd. Rydym yn symud Tîm Cyswllt Cwsmeriaid Ofcom o'n swyddfa yn Llundain i ogledd orllewin Lloegr. Wrth i ni symud rhai o'n gwasanaethau trwyddedu sbectrwm ar-lein, bydd y swyddogaeth hon hefyd yn symud o Lundain. Rydym wedi adolygu sut yr ydym yn rheoli ein heiddo, gan gyfuno a symleiddio ein dull, er mwyn darparu rhagor o fesurau effeithlonrwydd ac arbedion o ran cost,

⁷ [Seiliedig ar ddatcwyddydd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth \(CMC\) Trysorlys EM](#)

- 6.7 Fel rhan o'n Strategaeth TGCh, mae rhai o'n swyddogaethau a'n systemau'n symud i lwyfannau cwmwl, a fydd yn arwain at fwy o weithio ar y cyd ac yn arbed arian hefyd. Bydd gwneud y gwaith trwyddedu gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig (PMSE) yn fewnol yn 2015-16 yn sicrhau arbedion yn 2016/17. Bydd rheoleiddio gwasanaethau fideo ar alwad yn fewnol yn darparu gwasanaeth mwy effeithiol a llai cymhleth ac yn lleihau'r gost reoleiddio gyffredinol yn y maes hwn.

Atodiad 1

Y rhaglen waith ar gyfer 2016/17

A1.1 Isod, rydym yn nodi ein rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2016/17. Rydym yn darparu manylion am y prosiectau sy'n sail i'n priif feysydd gwaith, fel y nodwyd yn Adran 3, yn ogystal â'n cynllun gwaith ehangach i gyflawni ein nodau.

Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

Creu'r cyfle i ddatblygu rhwydweithiau tra chyflym ar raddfa fawr

Manylion y Prosiect	Cyfarwyddwr y Prosiect	Carreg Filtir
Gwella mynediad at bolion telegraff a phibellau Openreach: Byddwn yn sicrhau bod prosesau gweithredol effeithiol ar waith ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau eraill sy'n defnyddio polion telegraff a phibellau Openreach. Byddwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Openreach sefydlu cronfa ddata mynediad ar-lein ar gyfer polion a phibellau. Byddwn yn ystyried y materion hyn yng nghyd-destun yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol:	Paul Jacobus	Ymgynghoriad WLA Ch3 16/17
Cefnogi'r gwaith o weithredu Cyfarwydddeb Lleihau Costau Band Eang y Llywodraeth: Yn gyffredinol, bydd y Gyfarwydddeb hon yn rhoi hawl mynediad i seilwaith sifil ddefnyddio rhwydweithiau band eang cyflym iawn ar delerau rhesymol a sefydlu proses ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r Llywodraeth wedi argymhell mai Ofcom fydd y corff datrys anghydfodau. Os cadarnheir hyn, byddwn yn disgwyl cael arweiniad ar ein rôl.	Timothy Cross	Gweithredu'r Gyfarwydddeb Ch2 16/7

Rhoi ein cynigion ar waith i wella annibyniaeth Openreach

Diwygio trefn lywodraethu Openreach, a chryfhau ei annibyniaeth ar BT: Byddwn yn datblygu cynigion manwl i sicrhau mwy o annibyniaeth ac ymreolaeth i Openreach, i'w trafod â'r Comisiwn Ewropeaidd.	Clive Carter	Cynigion i'w trafod yn Ch3 16/17
---	--------------	----------------------------------

Sicrhau bod fframweithiau rheoleiddio Ewropeaidd yn addasu

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud y bydd yn cyhoeddi cynigion deddfwriaethol ar gyfer adolygiad o ddeddfwriaeth y Fframwaith Cyfathrebiadau Electronig yn 2016. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau	Camilla Bustani	Cynigion Deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd Ch2/3
--	-----------------	---

Ewropeaidd a gyda Llywodraeth y DU i gyfrannu at y ddadl, i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn gymesur, yn adlewyrchu'r heriau sy'n wynebu'r sector ac yn diwallu anghenion defnyddwyr heddiw ac yn y dyfodol.		16/17
--	--	-------

Cefnogi cystadleuaeth mewn gwasanaethau llinell sefydlog drwy adolygiadau marchnad

<p>Cynnal yr adolygiad o'r farchnad band cul: Mae'r adolygiad o'r farchnad band cul yn ystyried y cynnyrch a'r gwasanaethau sy'n sail i gyflwyno gwasanaethau telefoni sefydlog adwerthol yn y DU. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o'r farchnad band cul yn 2016/17. Mae cwmpas yr adolygiad hwn yn ehangach na'n hadolygiad blaenorol yn 2013; mae hwn yn cynnwys tair marchnad mynediad band cul (llinellau cyfnewid analog sefydlog, ISDN2 cyfanwerthol ac ISDN30 cyfanwerthol) yn ogystal â tharddiad galwadau cyfanwerthol, terfynu galwadau cyfanwerthol a chylchedau rhyng-gysylltu.</p>	Louise Marriage	Ymgynghoriad Ch2 16/17
<p>Cynnal yr adolygiad o'r farchnad terfynu galwadau symudol: Mae'r gwasanaeth terfynu galwadau symudol (MCT) yn wasanaeth cyfanwerthol a ddarperir gan ddarparwyr cyfathrebiadau symudol (MCP) i gysylltu galwad â derbynnydd ar ei rwydwaith. Pan fydd darparwyr cyfathrebiadau sefydlog neu symudol yn gadael i'w cwsmeriaid ffonio rhif ffôn symudol yn y DU, maent yn talu ffi gyfanwerthol i'r darparwr cyfathrebiadau symudol sy'n terfynu'r alwad, sef cyfradd terfynu galwadau symudol (MTR). Mae'r cyfraddau MTR yn cael eu gosod fesul munud, ac yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Byddwn yn cychwyn ein hadolygiad yn 2016/17 gydag ymgynghoriad i ddilyn yn 2017/18.</p>	Brian Potterill	Ymgynghoriad Ch1 17/18
<p>Cynnal yr adolygiad o'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol: Mae'r farchnad mynediad band eang cyfanwerthol yn ymwneud â chynnyrch band eang cyfanwerthol mae darparwyr cyfathrebiadau'n yn eu darparu eu hunain ac yn eu gwerthu i'w gilydd. Y gwasanaethau hyn yw un o sylfeini'r cynigion band eang adwerthol y mae defnyddwyr yn eu prynu. Un o'r penderfyniadau pwysig i ni yn yr adolygiad hwn yw a ddylem barhau â rheoleiddio <i>ex-ante</i> yn y farchnad hon.</p>	Caroline Longman	Ymgynghoriad Ch3 16/17

<p>Cynnal yr adolygiad o'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol: Mae'r farchnad mynediad lleol cyfanwerthol (WLA) yn ymwneud â mynediad i'r seilwaith telegyfathrebiadau sefydlog. WLA yw'r cysylltiad lleol rhwng adeilad y defnyddiwr a'r gyfnewidfa leol neu'r cwgn mynediad (<i>access node</i>). Gall y cysylltiad hwn fod yn gopr, yn gebl a/neu ffibr ac fe'i defnyddir i ddarparu gwasanaethau llinell sefydlog megis galwadau llais a rhyngwyd band eang. Yn yr adolygiad hwn byddwn yn ystyried beth yw'r drefn reoleiddio briodol, os o gwbl, ar gyfer cynnyrch ffibr, cynnyrch copr a mynediad goddefol (pibellau a pholion).</p>	<p>Markham Sivak</p>	<p>Ymgynghoriad Ch3 16/17</p>
--	----------------------	-------------------------------

Gwella gallu busnesau a defnyddwyr i wneud dewisiadau gwybodus

<p>Gwella'r wybodaeth ar argaeledd a chyflymderau band eang sefydlog: Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth fanylach i ddefnyddwyr am argaeledd a chyflymderau posibl band eang sefydlog cyflym iawn a thra chyflym a rhwydweithiau symudol 4G. Ar gyfer rhwydweithiau sefydlog, ein nod yw darparu data ar lefel cartrefi. Cyhoeddir y data hyn yn ein hadroddiadau <i>Cysylltu'r Gwledydd</i> a bydd ar gael hefyd drwy fapiau rhyngweithiol. Hefyd, byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau i Dasglu Cynhwysiant a Seilwaith Digidol y llywodraeth ar gyflymderau band eang.</p>	<p>Gary Clemo</p>	<p>Cyhoeddi adroddiadau <i>Cysylltu'r Gwledydd</i> Ch3 16/17</p>
<p>Gwella mapiau'r ddarpariaeth symudol: Byddwn yn cynnal profion maes i ddeall sut y gallwn ymestyn ein mapiau darpariaeth symudol i ddangos rhagor o wybodaeth, gan gynnwys ansawdd data symudol a llais 4G.</p>	<p>David Harrison</p>	<p>Profion maes Ch1 a 2 16/17</p>
<p>Cyhoeddi gwybodaeth defnyddwyr: Byddwn yn parhau i gyhoeddi gwybodaeth gymharol, gan gynnwys gwybodaeth am gwynion, cyflymderau band eang ac ansawdd y gwasanaeth i gwsmeriaid. Os canfyddwn angen, byddwn yn ystyried cyhoeddi rhagor o wybodaeth gymharol er mwyn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau ac i gymell y diwydiant i berfformio.</p>	<p>Sean O'Hara/ Nick Collins</p>	<p>Adroddiadau band eang sefydlog a symudol Ch4 16/17</p>
<p>Gwella gallu defnyddwyr i newid: Yn dilyn ein gwaith i wella'r prosesau newid ar rwydweithiau copr BT a KCom, rydym yn ystyried a oes angen i ni wella'r prosesau ar gyfer newid gwasanaethau symudol a thri-gwasanaeth. Os gwelwn fod angen gwella prosesau, byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ac yn cychwyn rhoi'r newidiadau ar waith yn 2016/17. Hefyd, byddwn yn parhau i nodi a rhoi sylw i rwystrau i newid nad ydynt yn gysylltiedig â phrosesau e.e. telerau yn y</p>	<p>Justin Le Patourel Katie Morrison</p>	<p>Symudol: datganiad Ch3/4 16/17 yn dilyn ymgynghoriad yn 15/16 Bwndeli tri gwasanaeth (triple play):</p>

contract.		Ymgynghoriad Ch2 16/17
Helpu BBaCh i ymgysylltu â'r marchnadoedd cyfathrebiadau: Yn dilyn y cynllun gweithredu yng nghyswllt BBaCh yn 2015, byddwn yn parhau i wella gallu BBaCh i ymgysylltu â'r marchnadoedd cyfathrebiadau. Yn ogystal ag ystyried anghenion penodol BBaCh ar draws ein rhaglen waith, yn 2016/17 byddwn yn: gwneud rhagor o ymchwil ar brofiadau ac anghenion BBaCh; gweithio gyda'r diwydiant ar weithredu cod ymarfer gwirfoddol band eang BBaCh ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau; diweddarau ein porth busnes yn barhaus; a pharhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU er mwyn diwallu anghenion BBaCh, gan gynnwys yng nghyswllt argaeledd band eang cyflym iawn i adeiladau BBaCh.	Priya Sinha	Gweithredu cod ymarfer gwirfoddol band eang BBCh Ch2 16/17; Cyhoeddi'r ymchwil Ch2 16/17

Monitro cynnydd mewn prisiau, darparu cyngor a gwybodaeth am brisiau, a sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael gwerth gan eu darparwyr cyfathrebiadau

Monitro'r cynnydd mewn prisiau: Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod i brisiau tariffau safonol gan sawl darparwr cyfathrebiadau, tra mae cwsmeriaid newydd wedi gallu cael prisiau sylweddol is drwy fanteisio ar ostyngiadau rhagarweiniol. Yn ein barn ni, dylai pob defnyddiwr, nid dim ond y rheini sy'n ymgysylltu â'r farchnad ac wrthi'n newid cyflenwr neu dariff, dderbyn gwerth am arian gan eu darparwr gwasanaethau cyfathrebiadau. Byddwn yn asesu'r newidiadau ym mhrisiau tariffau cyfathrebiadau a'u strwythurau, sut maent yn cael eu hysbysebu a sut y maent yn effeithio ar grwpiau gwahanol o ddefnyddwyr, gan weithredu os bydd angen.	Ian Macrae	Cyhoeddi'r wybodaeth Ch 2/3 16/17
Gwella gwybodaeth am brisiau i ddefnyddwyr Mae'n hanfodol fod prisiau gwasanaethau cyfathrebiadau wedi'u strwythuro a'u cyflwyno fel y gall defnyddwyr ddeall yn hawdd y pris cyffredinol a chymharu darparwyr. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant a thrydydd partïon, fel gwefannau cymharu prisiau, i wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr. Byddwn yn monitro effaith cydymffurfiaeth darparwyr â rheolau newydd yr Awdurdod Safonau Hysbysebu ar hysbysebu band eang. Byddwn yn ystyried y broses o fynnu bod darparwyr yn cyhoeddi dull safonol o gymharu prisiau, fel dull o fesur costau misol cyfartalog	Ian Macrae	Ymchwil ac asesu Ch 3 16/17

elfennau craidd gwasanaeth dros gyfnod y contract, ochr yn ochr â'u tariffiau.		
Asesu canlyniadau ar gyfer cwsmeriaid llinell sefydlog annibynnol: Efallai fod problemau penodol ar gyfer y cwsmeriaid hynny sy'n awyddus i brynu gwasanaeth llinell sefydlog annibynnol (h.y. heb fod yn rhan o fwndel). Mae'r cwsmeriaid hyn yn wynebu llai o ddewis (nid yw rhai o'r darparwyr mwyaf bellach yn cynnig gwasanaethau llinell sefydlog heb fand eang), a chynnydd ym mhreis rhent llinell. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi sydd â llinell sefydlog yn unig yn oedrannus ac ar incwm isel. Byddwn yn asesu'r mater hwn ochr yn ochr â'r adolygiad o'r farchnad band cul, ac yn cymryd camau yn ôl yr angen i hybu cystadleuaeth, a/neu sicrhau bod defnyddwyr yn cael ei diogelu'n briodol rhag cynnydd niweidiol yn y pris.	Priya Sinha	Cyhoeddi'r asesiad Ch3 2016/17

Prosiectau eraill i hyrwyddo dewis a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol

Adroddiadau ar farchnad gyfathrebiadau'r DU: Mae'r gyfres hon o adroddiadau blynyddol yn edrych ar y sector cyfathrebiadau ledled y DU ac yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiadau'n cynnwys data ar ddarllediadau teledu a radio, ffonau llinellau sefydlog a symudol, y defnydd o'r rhyngwyd a'r post, ynghyd â dadansoddiad ohonynt.	Steve Cape	Cyhoeddir Ch2 16/17
Adroddiad ar y farchnad gyfathrebiadau ryngwladol: Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn darparu data rhyngwladol y gellir ei gymharu ar y sector cyfathrebiadau. Nod yr adroddiad yw meincodi sector cyfathrebiadau'r DU yn erbyn nifer o wledydd cymharol er mwyn asesu sut mae'r DU yn perfformio mewn cyd-destun rhyngwladol.	Jane Rumble	Cyhoeddir Ch3 16/17

Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Gorfodi newid sylweddol yn ansawdd gwasanaethau telegyfathrebiadau

Ansawdd gwasanaeth band eang sefydlog a llinell sefydlog: Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd gwasanaeth Openreach yn y farchnad mynediad sefydlog. Yn dilyn cyhoeddi casgliadau cychwynnol ein <i>Hadolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol</i> , bwriadwn osod a gorfodi safonau gofynnol mwy llym ar rwydwaith Openreach drwy'r <i>adolygiad o Fynediad Lleol Cyfanwerthol</i> . Byddwn yn ystyried ymestyn y safonau gofynnol i feysydd newydd, yn ôl yr angen, a byddwn yn ystyried potensial defnyddio rheolaethau pris sy'n	Ali Abbas-Ali	Ymgynghoriad WLA Ch3 16/17
--	---------------	----------------------------

ysgogi gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau. Ar ben ein gwaith ar yr adolygiad o'r farchnad, byddwn yn ystyried sut i annog darparwyr cyfathrebiadau i rannu gwybodaeth a throsglwyddo'r wybodaeth hon i ddefnyddwyr er mwyn gwella canlyniadau.		
Ansawdd gwasanaeth Ethernet: Byddwn yn sefydlu fframwaith cydymffurfio a monitro ansawdd gwasanaeth newydd yng nghyswllt Ethernet yn amodol ar gasgliadau'r <i>Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes</i> (BCMR), sy'n edrych ar y marchnadoedd ar gyfer darparu llinellau ar brydles (gwasanaethau trawsyrru data, pwynt i bwynt penodol o ansawdd uchel) i fusnesau yn y DU.	Gideon Senensieb	Sefydlu fframwaith Ch1 16/17
Darparu adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau yn y sectorau symudol a sefydlog: Byddwn yn sefydlu adroddiad blynyddol newydd, a fydd yn delio ag amryw o fesurau ansawdd yng nghyswllt rhwydweithiau a gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd yn berthnasol i'r holl ddarparwyr yn y sector cyfathrebiadau.	Ian Macrae	Ch4 16/17
Ystyried trefniadau ar gyfer iawndal awtomatig i ddefnyddwyr a busnesau bach: Byddwn yn cynllunio gofyniad i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cyfathrebiadau adwerthol ddarparu iawndal yn awtomatig pan fyddant yn methu darparu gwasanaeth i'r safon ddynodedig, a byddwn yn ymgynghori ar y gofyniad.	Selina Chadra	Ch4 16/17

Cefnogi'r gwaith o weithredu rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) newydd yng nghyswllt band eang

Byddwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu USO band eang, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth yn 2015. Bydd ein gwaith yn cynnwys cyngor technegol a rheoliadau, gan gynnwys gwneud rheoliadau ar gyfer dynodi darparwr/darparwyr gwasanaeth cyffredinol a phenodi darparwr/darparwyr gwasanaeth cyffredinol, yn ôl yr angen. Byddwn yn sefydlu peirianwaith cyllido os bydd angen.	Liz Bates	Yn parhau
--	-----------	-----------

Gweithredu casgliadau proses Adnewyddu Siarter y BBC

Mae cyfansoddiad y BBC wedi'i nodi mewn Siarter Brenhinol, tra mae'r fframwaith manwl y mae'n gweithredu iddo yn cael ei ddisgrifio mewn Cytundeb rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Bydd y Siarter presennol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2016, ac mae'r Llywodraeth wrthi'n adolygu dyfodol y BBC er mwyn	Richard Wronka	I'w gadarnhau – mae'r Siarter presennol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2016
--	----------------	---

sefydlu Siarter newydd. Mae Ofcom eisoes yn ymgymryd â nifer o ddyletswyddau rheoleiddiol yng nghyswllt y BBC, ac rydym yn cefnogi gwaith y Llywodraeth o ran sut gallai'r cyfrifoldebau hyn ddatblygu, a gweithredu unrhyw ganlyniadau perthnasol sy'n deillio o'r broses o Adnewyddu'r Siarter.		
---	--	--

Prosiectau eraill i sicrhau safonau a gwella ansawdd

<p>Cyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol: Byddwn yn rhoi cyngor i'r Comisiwn wrth iddo baratoi i gyhoeddi cynigion deddfwriaethol ar gyfer Cyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol newydd yn hanner cyntaf 2016. Yn dilyn cyhoeddi'r cynigion deddfwriaethol, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau Ewropeaidd a gyda Llywodraeth y DU i gyfrannu at y ddadl, i sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio'n dal i roi'r warchodaeth y mae cynulleidfaoedd yn ei disgwyl ac i hyrwyddo marchnad cynnwys Ewropeaidd fywiog yn yr oes ddigidol.</p>	Jeremy Olivier	Cynigion Deddfwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd yn Ch1 16/17
<p>Hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y maes darlledu: Byddwn yn parhau i roi cefnogaeth lawn i roi system monitro amrywiaeth ar ac oddi ar y sgrin y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol ar waith. Enw'r system yw Diamond. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i ddatblygu canllawiau arfer gorau ar gyfer y diwydiant fel rhan o offer ar-lein integredig, sydd i'w cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2016, ac i annog darlledwyr perthnasol i ystyried y rhain wrth lunio eu trefniadau ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal mewn gwaith a hyfforddiant. Bydd y canllawiau'n ystyried sut i osod y sylfeini ar gyfer strategaeth amrywiaeth, o'r cam recriwtio i hyfforddiant.</p>	Tony Close	Canllawiau arfer gorau Ch1/2 16/17
<p>Esbonio'r rheolau ar wahardd darlledu cynnwys eithafol: Mae darlledu cynnwys sy'n ysgogi troseddu neu anhrefn yn fater y mae Ofcom yn ei gymryd o ddifrif, yn unol â'n dyletswydd statudol yn y maes hwn. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad, ar ôl i'r Cod Darlledu gael ei adolygu, i sicrhau bod ein rheolau a'n canllawiau yn ei gwneud yn gwbl glir i ddarlledwyr pa gynnwys sy'n cael ei wahardd yn y maes hwn.</p>	Tony Close	Datganiad Ch1/2 16/17
<p>Adolygu sut rydym yn mynd ati i reoleiddio cynnwys golygyddol ar gyfer gwasanaethau rhaglenni ar alwad: Yn dilyn ein penderfyniad i weithredu fel unig reoleiddiwr yn y maes hwn, ochr yn ochr â'n gwaith darlledu unionlin, byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad am sut rydym yn mynd at i reoleiddio cynnwys golygyddol ar gyfer gwasanaethau</p>	Tony Close	Datganiad Ch1/2 16/17

rhaglenni ar alwad.		
<p>Penderfynu a ddylid newid y rheolau a'r arweiniad ar gyfer is-deitlo byw: Byddwn yn gwella ansawdd profiad gwyllo pobl sy'n dibynnu ar is-deitlau i fwynhau rhaglenni byw neu raglenni bron yn fyw. Bydd Ofcom yn penderfynu yn ystod 2016/17 a ddylid gwneud newidiadau i'r rheolau a'r arweiniad sy'n berthnasol i ddarlledwyr y mae'n rhaid iddynt ddarparu is-deitlau.</p>	Tony Close	Ymgynghoriad Ch1 16/17
<p>Paratoi ar gyfer dyfodol rheoleiddio radio: Pan fyddwn wedi cwblhau ein hadolygiad o'r drefn rheoleiddio radio ym mis Chwefror 2016, sy'n edrych ar leolrwydd a symleiddio fformatau radio, deallwn y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori ynglyn ag opsiynau ar gyfer newid, gan gynnwys fframwaith statudol newydd posibl. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu casgliadau'r ymgynghoriad hwn.</p>	Neil Stock	Ymgynghoriad y Llywodraeth Ch1 16/17
<p>Cefnogi'r Llywodraeth i ehangu radio digidol: Byddwn yn cefnogi'r Llywodraeth a gweithredwyr amblecsau radio lleol i ehangu'r ddarpariaeth DAB lleol, drwy ein gwaith technegol ar gyfer y Panel Cyngori ar Ariannu DAB Lleol. Hefyd, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu ateb digidol posibl ar gyfer gorsafoedd radio masnachol a chymunedol bach.</p>	Peter Madry/ Neil Stock	Ymgynghoriad y Llywodraeth Ch1 16/17
<p>Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 2.3 a 3.4GHz: Byddwn yn mynd ati i gynnal arwerthiant o'r sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz – a ryddhawyd i Ofcom o dan raglen Rhyddhau Sbectrwm y Sector Cyhoeddus (PSSR) gan y Llywodraeth – unwaith y bydd canlyniad ymchwiliad y Comisiwn Ewropeaidd i'r pryniant o O2 gan Hutchision Whampoa (H3G) yn hysbys.</p>	Andrew Hudson	I'w gadarnhau – yn dilyn penderfyniad y CE
<p>Gweithredu'r strategaeth ar gyfer newid defnydd y band 700MHz: Byddwn yn cyhoeddi datganiad ar amseriad a manylion y newidiadau ar gyfer defnyddwyr presennol y band 700MHz (teledu digidol daearol, PMSE, dyfeisiau bylchau gwyn) a phryd y bydd y band ar gael ar gyfer defnydd symudol. Mae gweithgareddau penodol y rhaglen aml-flwyddyn hon a fydd yn parhau yn 2016/17 yn cynnwys datblygu lefel nesaf manylion y cynllun amledd teledu daearol digidol (DTT), goruchwyllo newidiadau i'r seilwaith DTT a rhedeg y cynllun grantiau cysylltiedig.</p>	Brice Le Cannu	Datganiad ar amseriad a manylion y newidiadau i ddefnyddwyr cyfredol Ch2/3 16/17
<p>Gweithredu casgliadau'r adolygiad o PMSE (gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig): Yn dilyn cyhoeddi ein datganiad yn Ch4 2015/16, byddwn yn asesu gofynion gweithredu'r adolygiad o PMSE yn</p>	Helen Hearn	I'w gadarnhau

2016/17.		
<p>Rhoi polisi sbectrwm ar waith ar gyfer y defnydd trwyddedig cyfredol ohono: Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad o ffioedd sbectrwm ar gyfer y sectorau gorsafoedd daear lloeren a dolenni sefydlog ac ar gyfer trwyddedau band gwarchod y dechnoleg DECT. Fel rhan o'r olaf, byddwn yn ystyried yr opsiynau tymor hwy ar gyfer ailffurfweddu sbectrwm yn y band 1800 MHz, o gofio am y newidiadau mewn technoleg ers y cafodd ei ffurfweddu'n wreiddiol.</p>	Charles Jenne/ Russell Kent-Smith/ Alex Dixon/ Helen Hearn/ Paul Jarvis	Datganiad ar fandiau gwarchod DECT a 1800 MHz Ch1 2016/17 Ymgynghoriad yr adolygiad o ffioedd gorsafoedd daear lloeren a dolenni sefydlog Ch1 2016/17
<p>Adolygu'r gwaith o reoleiddio'r Post Brenhinol: Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ar y cynigion, byddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein hadolygiad sylfaenol i reoleiddio'r Post Brenhinol i sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth post cyffredinol yn effeithlon ac mewn ffordd sy'n gynaliadwy'n ariannol. Bydd yr adolygiad yn gynhwysfawr, gan edrych ar nifer o feysydd a fydd yn cynnwys effeithlonrwydd, mynediad a dosbarthu parseli.</p>	Chris Rowsell	Datganiad Ch3/4 16/17
<p>Adroddiadau ar statws gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebiadau electronig y DU: Mae adroddiadau blynyddol <i>Cysylltu'r Gwledydd</i> yn edrych ar y rhwydweithiau WiFi, symudol a band eang sefydlog, teledu digidol, radio digidol a seilwaith y rhyngwrwd ledled y DU ac yng Nghymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Hefyd, byddwn yn cyhoeddi adroddiad cryno ar gyfer Llywodraeth y DU.</p>	Gary Clemo	Cyhoeddi'r adroddiad Ch3 16/17
<p>Adroddiadau ar agweddau a defnydd plant ac oedolion o gyfryngau: Cyhoeddir yr adroddiadau hyn fel rhan o'n dyletswyddau yn ymwneud â llythrennedd yn y cyfryngau. Maent yn darparu data ar ddefnydd ac agweddau plant ac oedolion at deledu, radio, gemau, dyfeisiau symudol a'r rhyngwrwd, gan ganolbwyntio'n benodol ar agweddau a defnydd ar-lein.</p>	Alison Preston	Cyhoeddir yr adroddiad oedolion Ch1 16/17; yr adroddiad plant Ch3 16/17
<p>Adroddiad ar agweddau cynulleidfaoedd at y cyfryngau darlledu: Mae'r adroddiad ymchwil blynyddol hwn yn edrych ar agweddau cynulleidfaoedd at gynnwys teledu a radio. Mae'n cynnwys lefelau tybiedig o niwed a thramgwydd.</p>	Jane Rumble	Adroddiad Ch1 16/17
<p>Llunio Adroddiad Blynyddol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2016: Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus</p>	Jane Rumble	Adroddiad Ch2 16/17

(PSB) gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y sianelau PSB		
---	--	--

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Mynd i'r afael â galwadau niwsans

Camau gorfodi yn erbyn galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael: Byddwn yn cymryd camau gorfodi yn erbyn y rheini sy'n gwneud galwadau mud a galwadau sy'n cael eu gadael, yn unol â'n datganiad polisi diwygiedig a fydd yn cael ei gyhoeddi yn Ch1 2016/17.	Lynn Parker	Yn parhau
Monitro a blocio traffig galwadau problemus: Byddwn yn gweithio gyda darparwyr cyfathrebiadau'r DU i fonitro a blocio traffig galwadau problemus o dan y memorandwm cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno ym mis Tachwedd 2015 a chyda phartneriaid rhyngwladol ar orfodi a dilysu gwasanaeth adnabod y galwr fel y cytunwyd arno yn 2014.	Nihal Newman	Cytuno mewn egwyddor â darparwyr i ddechrau gweithredu erbyn Ch1 16/17

Parhau i ymateb i faterion newydd sy'n berthnasol i ddefnyddwyr

Trefniadau canslo a therfynu: Mae gan Ofcom raglen barhaus i asesu trefniadau canslo a therfynu darparwyr cyfathrebiadau, ac effaith y rhain ar allu defnyddwyr i derfynu eu contract gwasanaeth cyfathrebiadau'n gyflym, yn hwylus a heb wall. Meysydd y byddwn yn parhau i ymchwilio iddynt, ond heb ei gyfyngu iddynt: pryderon am wasanaeth i gwsmeriaid; er enghraifft aros yn hir i rywun ateb mewn canolfan alwadau wrth geisio canslo gwasanaeth; anawsterau cael codau awdurdodi cludo symudol (PACs); biliau'n parhau ar ôl i gontract ddod i ben; a phroblemau datgloi ffonau ar ôl i gontract ddod i ben.	Justin Le Patourel	Yn parhau
Delio â chwynion: Mae'n rhaid i ddarparwyr cyfathrebiadau gael gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r <i>Cod Ymarfer ar gyfer Delio â Chwynion</i> sydd wedi'i gymeradwyo gan Ofcom. Mae gan Ofcom raglen gyson i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn, gan gynnwys sicrhau bod darparwyr yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am y drefn ADR (dulliau amgen o ddatrys anghydfod) ac yn benodol, rhoi sylw i bryderon nad yw defnyddwyr yn cael llythyrau yn eu hysbysu am yr hawl i ddefnyddio'r drefn ADR ar ôl wyth wythnos, os yw'r gŵyn yn dal heb ei datrys. Rydym wedi sicrhau cynlluniau gweithredu gan ddarparwyr i sicrhau	Gavin Daykin	Yn parhau

<p>gwelliannau o fewn chwe mis (erbyn mis Mawrth 2016), y byddwn yn eu monitro a'u hasesu, a byddwn yn ystyried ymchwiliadau unigol os na welwn welliannau sylweddol. Mae gennym un ymchwiliad ar waith ar hyn o bryd yng nghyswllt Vodafone.</p>		
<p>Ymateb i faterion wrth iddynt godi: Fel rhan o'n rhaglen barhaus o ymchwiliadau, bydd Ofcom yn parhau i ymateb i faterion defnyddwyr wrth iddynt godi yn ystod y flwyddyn.</p>	Lynn Parker	Amh.

Prosiectau eraill i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed

<p>Ystyried y trothwy ac offer arall i ddiogelu plant rhag cynnwys amhrifodol: Byddwn yn ystyried a yw'n briodol diweddarau rheolau yn y Cod Darlledu sy'n ymwneud â diogelu plant. Yn benodol, byddwn yn ystyried a yw'n briodol caniatáu i ddarlledwyr ddangos cynnwys sy'n fwy addas i oedolion cyn y trothwy, gyhyd â bod trefniadau mynediad cadarn ar gael fel amddiffyniad PIN. Fel rhan o hyn, byddwn yn archwilio effeithiolrwydd yr offer hyn a sut y maent yn rhyngweithio â'r trothwy, ochr yn ochr â'r buddion posibl i ddarlledwyr a chynulleidfaoedd.</p>	Tony Close	Datganiad Ch1/2 16/17
---	------------	-----------------------

Atodiad 2

Ymatebion i'r Cynllun Blynyddol Arfaethedig

A2.1 Cawsom 28 o ymatebion ysgrifenedig i'n Cynllun Blynyddol Arfaethedig gan gwmnïau sy'n gweithio mewn amrywiaeth o farchnadoedd cyfathrebu, yn ogystal â chyrrff masnach, sefydliadau budd defnyddwyr, ac unigolion. Rydym wedi ystyried pob ymateb wrth lunio ein Cynllun Blynyddol ac rydym wedi cyhoeddi pob ymateb nad oedd yn gyfrinachol yn llawn ar ein gwefan.⁸ Isod, rydym yn rhoi ein hymateb i bwytiau allweddol a godwyd gan randdeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad.

Hyrwyddo cystadleuaeth a sicrhau bod marchnadoedd yn gweithio'n effeithiol i ddefnyddwyr

Ôl-gludo symudol

Ymatebion rhanddeiliaid – pwyntiau allweddol	Ymateb Ofcom
Soniodd Three a Llywodraeth Cymru am y tagfeydd cystadleuol y mae gweithredwyr symudol yn eu hwynebu, gan gynnwys y diffyg cystadleuaeth yn y farchnad ôl-gludo ffibr. Cynigiwyd amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys atebion mynediad goddefol, fel ffibr tywyll a mynediad at seilwaith pibellau.	<i>Yn ei Adolygiad Strategol yn ddiweddar, mae Ofcom wedi amlinellu ei safbwyntiau am agor mynediad at bibellau a pholion, ochr yn ochr ag atebion goddefol eraill.⁹ Yn ogystal â hyn, mae'r adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes wedi ymgynghori ar gynigion i gyflwyno ffibr tywyll, i'w ddefnyddio o bosibl i ôl-gludo i orsafoedd gwasanaethau symudol. Bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2016.</i>

Crwydro rhyngwladol

Roedd Three yn teimlo y byddai penderfyniad yr Undeb Ewropeaidd i ddileu gordaliadau crwydro adwerthol yn yr Undeb Ewropeaidd o fis Mehefin 2017 ymlaen yn peri risg o ystumio cystadleuaeth ar lefel Ewropeaidd, os nad oes gostyngiad hefyd yn y cyfraddau cyfanwerthol. Roedd yn dadlau y bydd hyn yn peri niwed arbennig i all-dalwyr net, gan gynnwys gweithredwyr llai a darparwyr mewn gwledydd sydd â chyfraddau terfynu symudol isel, yn cynnwys y DU.	<i>Mae rheoliadau Ewropeaidd yn gosod dyddiad, sef 15 Mehefin 2017, ar gyfer dileu gordaliadau crwydro o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar reolau newydd ar y farchnad crwydro gyfanwerthol a fydd ar waith erbyn hynny. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn llunio cynigion deddfwriaethol ar y farchnad gyfanwerthol, ac mae'n rhaid iddo eu cyflwyno erbyn 15 Mehefin 2016. Fel rhan o hyn, mae'n asesu'r risg o ystumio cystadleuaeth a chynlluniau buddsoddi o ganlyniad i "grwydro fel petaech chi adref" (roam like at home).</i> <i>Mae Ofcom yn gweithio o fewn BEREC i roi cyngor a chymorth i'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer ei adolygiad o'r farchnad crwydro gyfanwerthol. Ar 12 Mawrth 2016,</i>
---	---

⁸ Ofcom, [Ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Cynllun Blynyddol Arfaethedig](#).

⁹ Ofcom, [Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb](#): Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol, 26 Chwefror 2016.

	cyhoeddodd BEREC ei farn am faterion allweddol ar gyfer y farchnad crwydro gyfanwerthol. ¹⁰
--	--

Atebion lleol

Anogodd Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru Ofcom i wneud rhagor o waith dadansoddi marchnad ranbarthol, gyda'r bwriad o gyflwyno atebion lleol. Ychwanegodd Llywodraeth yr Alban fod hyfywedd prosiectau cymunedol bach yn aml yn cael ei danseilio gan gost cysylltu ag ôl-gludiad (backhaul) addas.	<i>Rydym yn ystyried gwahaniaethau daearyddol posibl mewn cystadleuaeth a pha mor briodol yw marchnadoedd daearyddol yn ein hadolygiadau o'r farchnad. Er enghraifft, yn y gorffennol, rydym wedi canfod marchnadoedd daearyddol gwahanol ar gyfer rheoliadau Ethernet fel rhan o'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (lle mae llai o reoliadau'n berthnasol i ardaloedd cystadleuol Llundain) a'r Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol (lle mae rheoliadau penodol yn berthnasol i leoliadau ar draws y DU er mwyn amddiffyn cwsmeriaid mewn ardaloedd lle mae cystadleuaeth yn brin neu lle nad oes cystadleuaeth o gwbl). Byddwn unwaith eto'n ystyried pa mor briodol yw marchnadoedd daearyddol yn yr adolygiad sydd ar droed o Fand Cul, yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Band Eang Cyfanwerthol a'r Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol.</i>
---	---

Darparu gwybodaeth

Roedd Three a BT yn codi pryderon am anghysondebau, gwahaniaethau a diffyg eglurder yn nata'r diwydiant y mae OFCOM yn eu casglu ac yn eu cyhoeddi, a allai gamarwain defnyddwyr.	<i>Rydym yn gwneud ein gorau i wneud yn siŵr bod unrhyw waith ymchwil y byddwn yn ei gyhoeddi yn gyson ac yn drylwyr, ac yn ceisio rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â methodoleg. Er enghraifft, mae ein gwaith ymchwil sy'n mesur perfformiad band eang symudol yn ceisio dynodi perfformiad darparwyr gwasanaethau symudol drwy gyhoeddi metrigau sy'n berthnasol i brofiad y defnyddiwr arferol.¹¹ Ar gyfer ein gwaith ymchwil diweddaraf, fe wnaethom ddefnyddio ffôn poblogaidd ymysg defnyddwyr yn y DU. Bydd ein hadroddiad yn egluro bod y ffôn a ddewisir yn gallu effeithio ar berfformiad. Os nad oes safonau diwydiant ar gyfer cyhoeddi data ar gael, byddwn yn rhannu ein dulliau a'n methodolegau â'r gweithredwyr ac yn gofyn am eu barn.</i>
Roedd Arolwg Ordnans yn teimlo y byddai un set ddata ar gyfer y seilwaith cyfleustodau i gyd yn ddefnyddiol i gefnogi'r USO, ac yn helpu o ran cyflwyno band eang. Roedd yn argymhell y dylai mapio darpariaeth symudol gyfuno mapio seiliedig ar seilwaith â gwybodaeth gan lawer o bobl ynghylch ansawdd eu profiadau.	<i>Byddwn yn parhau i ddatblygu'r adnoddau sydd ar gael i ddefnyddwyr allu gweld beth yw ansawdd rhwydweithiau symudol a sefydlog a pha ddarpariaeth sydd ar gael. Bydd seilwaith a thechnolegau newydd sydd ar gael yn cael eu hadlewyrchu yn yr adnoddau hyn wrth iddynt sefydlu eu hunain yn y farchnad. Byddwn yn mesur darpariaeth rhwydwaith a'i ansawdd drwy ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau, gan gynnwys paneli defnyddwyr sy'n rhoi barn llawer o bobl. Bydd ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol yn ymdrin yn fanwl â'r seilwaith a'r gwasanaethau sydd ar gael ledled y DU.</i>

¹⁰ BEREC, [Report on the wholesale roaming market](#), 12 Chwefror 2016.

¹¹ Ofcom, [Measuring mobile broadband performance in the UK](#), 2 Ebrill 2015.

Newid darparwr a symud rhifau

<p>Awgrymodd sawl rhanddeiliad y dylid cydgordio a symleiddio'r broses newid darparwr ar draws gwahanol wasanaethau cyfathrebu.¹² Roedd ITSPA yn annog Ofcom i edrych ar symud rhifau, gan ddadlau nad yw'r system bresennol yn effeithlon a bod peidio â chydymffurfio â phrosesau symud rhifau yn peri niwed sylweddol i ddefnyddwyr.</p>	<p><i>Mae cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag newid darparwr yn un o flaenoriaethau Ofcom. Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi cynigion i wneud y broses o newid darparwr symudol a symud rhif yn gyflymach ac yn hwylusach i ddefnyddwyr.¹³ Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r camau nesaf ar newid gwasanaethau bwndeli o dri gwasanaeth (triple play), gan gynnwys cynigion i newid os ydym yn teimlo bod angen, yn nes ymlaen eleni. Rhoddwyd sylw i symud rhifau sefydlog yn Adolygiad Strategol Ofcom yn ddiweddar.¹⁴</i></p>
---	--

Bwndelu

<p>Dyweddodd rhanddeiliaid y dylai darparwyr gael eu gwahardd rhag marchnata bwndeli adwerthu mewn ffordd gamarweiniol, er enghraifft, drwy hysbysebu prisiau isel am wasanaethau poblogaidd, ond cuddio costau uchel gwasanaethau llai poblogaidd yn y print mân.¹⁵</p>	<p><i>Mae nifer o feysydd gwaith yn 2016/17 yn anelu at wella'r wybodaeth am brisiau sydd ar gael i ddefnyddwyr. Rydym yn cefnogi cynigion yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, sef y dylai hysbysebion band eang roi cyfanswm y costau y bydd angen eu talu unwaith yn unig, a phris y gwasanaeth yn llawn bob mis – gan gynnwys costau rhentu llinell – a gwneud yn siŵr bod y pris misol ar ôl i unrhyw ddisgownt ddod i ben yr un mor amlwg. Byddwn yn monitro effaith cydymffurfiaeth darparwyr â rheolau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu ynghylch hysbysebu prisiau band eang. Byddwn hefyd, fel yr amlinellir yn ein Hadolygiad Strategol, yn mynd ati'n frwd i ystyried ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gyhoeddi mesur cymharu costau safonol ochr yn ochr â'u tariffau. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant a thrydydd partion, fel gwefannau cymharu prisiau, i wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddefnyddwyr.</i></p>
---	--

Teledu drwy Dalu

<p>Dyweddodd BT nad oes dim cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad teledu drwy dalu, ac anogodd Ofcom i amlinellu ei gynlluniau ar gyfer monitro'r farchnad teledu drwy dalu a'r gadwyn gwerth ehangach.</p>	<p><i>Yn Adran 5 uchod, amlinellir ein gwaith ar olrhain datblygiadau yn y farchnad ar hyd cadwyn gwerth teledu drwy dalu. Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y wybodaeth y byddwn yn ceisio ei chasglu ar gyfer y rhaglen fonitro.</i></p>
---	---

¹² [Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau](#), t. 3; [Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), t. 6; [SSE](#), t. 1; [Three](#), t. 7; [Gwasanaethau'r Ombwdsmon](#), t. 7; [Grŵp TalkTalk](#), tt. 2-3.

¹³ Ofcom, [Consumer switching](#), 23 Mawrth 2016.

¹⁴ Ofcom, [Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb](#): Casgliadau cychwynnol yr adolygiad strategol o gyfathrebiadau Digidol, 26 Chwefror 2016, [Atodiad 1 Crynodeb o ymatebion rhanddeiliaid](#).

¹⁵ [Three](#), tt. 10-11; [Llywodraeth Cymru](#), t. 6; [Grŵp TalkTalk](#), t. 4.

Gwasanaethau OTT

Anogodd Three Ofcom i wneud yn siŵr bod mesurau rheoleiddio gwasanaethau OTT yn gwarchod defnyddwyr ac nad yw'n anfanteisiol i ddarparwyr gwasanaethau traddodiadol.	<i>Yn ddiweddar, mae Ofcom wedi nodi ei safbwyntiau am reoleiddio gwasanaethau OTT yn ei Adolygiad Strategol.¹⁶</i>
---	--

Codi tâl am rifau

Anogodd BT Ofcom i roi blaenoriaeth i'w adolygiad o ba mor effeithiol oedd y cynllun peilot ar gyfer codi tâl am rifau yn 2016/17.	<i>Byddwn yn cyhoeddi'n fuan ymgynghoriad ar ein hadolygiad o godi ffioedd am rifau ffôn daearyddol mewn ardaloedd penodol, a chynigion ar gyfer codi ffioedd am rifau daearyddol.</i>
---	--

Sicrhau safonau a gwella ansawdd

Ansawdd Gwasanaethau

Cafwyd sylwadau am nifer o faterion yn ymwneud ag ansawdd gwasanaethau gan randdeiliaid, gan gynnwys perfformiad Openreach mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, effaith prisiau rheoli ffioedd isel ar fuddsoddiad hirdymor ar y rhwydwaith, a gweithredu atebion gwybodaeth. ¹⁷	<i>Bydd yr adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol yn edrych ar ein dulliau gweithredu o safbwynt safonau gofynnol ar gyfer perfformiad Openreach, gan gynnwys mesurau i sicrhau nad yw Openreach yn gwahaniaethu rhwng rhanbarthau wrth fodloni'r safonau gofynnol cenedlaethol. Byddwn yn ystyried hefyd sut i roi sylw i'r rhestrau hirfaith o archebion anghyflawn, sy'n debygol o effeithio'n anghymesur ar ardaloedd gwledig ac anghysbell. Bydd yr Adolygiad o'r Farchnad Mynediad Lleol Cyfanwerthol yn ystyried hefyd sut gellir gwneud yn siŵr bod Openreach yn cael ei gymell i fuddsoddi yn ansawdd gwasanaethau yn y tymor hir.</i> <i>Rydym wedi amlinellu ein safbwyntiau ar atebion gwybodaeth ansawdd gwasanaethau yn ddiweddar yn ein Hadolygiad Strategol.¹⁸ Byddwn yn ystyried sut i wneud yn siŵr bod ein hatebion gwybodaeth yn hygyrch i ddefnyddwyr. Rydym yn bwriadu cyhoeddi Adroddiad Ansawdd Gwasanaethau blynyddol yn fuan yn 2017.</i>
--	---

Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR)

Codwyd pryderon gan randdeiliaid fod darparwyr cyfathrebiadau'n cyfeirio nifer isel o gwynion i wasanaethau ADR. Roeddent yn awgrymu cyhoeddi data cwynion ADR i amlygu materion sy'n digwydd dro ar ôl tro yng nghyswllt	<i>Mae gan Ofcom raglen monitro a gorfodi i sicrhau gwell perfformiad gan ddarparwyr cyfathrebiadau o ran delio â chwynion, ac i fonitro i ba raddau maent yn cydymffurfio â rheolau Ofcom i gynghori cwsmeriaid cymwys ynghylch eu hawl i ddefnyddio ADR. Mae Ofcom yn cynnal trafodaethau â chynlluniau ADR i</i>
---	---

¹⁶ Ofcom, [Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb](#): Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol, 26 Chwefror 2016.

¹⁷ [Pwyllgor Cynghori'r Alban](#), t. 1; [CWU](#), t. 4; [SSE](#), t. 2; [Llywodraeth Cymru](#), t. 4.

¹⁸ Ofcom, [Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb](#): Casgliadau cychwynnol yr Adolygiad Strategol o Gyfathrebiadau Digidol, 26 Chwefror 2016.

marchnadoedd cyfathrebiadau a pherfformiad darparwyr. ¹⁹	wneud yn siŵr bod eu data'n cael eu defnyddio'n effeithiol ac i ystyried eu cyhoeddi.
---	---

Darpariaeth symudol

Cafodd Ofcom ei annog gan randdeiliaid i weithredu ym maes darpariaeth symudol, gan gynnwys monitro darpariaeth 4G gweithredwyr rhwydweithiau symudol a chasglu gwybodaeth am waith cynllunio rhwydwaith yn y dyfodol er mwyn darganfod y manau di-gyswllt sy'n weddill. ²⁰ Anogodd BT Ofcom i ymchwilio i ddewisiadau defnyddwyr o ran darpariaeth symudol a beth sy'n achosi darpariaeth wael.	<i>Byddwn yn parhau i fonitro'r modd y mae rhwydweithiau 4G yn cael eu cyflwyno ac yn diweddarau'r mapiau darpariaeth ar ein gwefan yn rheolaidd. Yn yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, byddwn yn rhoi ystadegau ar ddarpariaeth symudol a manau di-gyswllt symudol ym mhob un o'r gwledydd. Byddwn yn dal ati i gynnal profion gyda'r gweithredwyr symudol ac yn dadansoddi adborth defnyddwyr gyda golwg ar wella cywirdeb y map.</i>
--	--

Cyfarpar mwyhau symudol

Roedd Pwyllgor Cynghori'r Alban yn annog Ofcom i archwilio a hybu'r dasg o ddatblygu cyfarpar mwyhau er mwyn gwella ansawdd y signal mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.	<i>Fel y nodwyd yn ein datganiad diweddar, mae cyfarpar mwyhau symudol yn arbennig o addas ar gyfer gwella'r ddarpariaeth y tu mewn i adeiladau, cerbydau a threnau, ac mewn lleoliadau gwledig mwy anghysbell.²¹ Rydym yn awyddus i randdeiliaid y diwydiant gyflwyno i Ofcom ddyfeisiau sydd ddim yn debygol o achosi gormod o ymyriant i ddefnyddwyr symudol eraill wrth eu defnyddio. Byddai hyn yn rhoi'r gallu i Ofcom adnabod cyfarpar mwyhau penodol y gellid eu defnyddio yn y DU heb drwydded.</i>
---	---

Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol (AVMS)

Roedd COBA ac A+E Networks UK yn annog Ofcom i sicrhau bod amddiffyn yr egwyddor 'Gwlad Wreiddiol' yn cael blaenoriaeth. Roeddent yn dadlau bod yr egwyddor yn dwyn budd i'r DU ac i farchnadoedd eraill ledled Ewrop hefyd.	<i>Yn ein hymateb i Ymgynghoriad yr Undeb Ewropeaidd ar Gyfarwydddeb AMVS, fe wnaethom nodi bod yr egwyddor Gwlad Wreiddiol wedi rhoi'r gallu cyffredinol i reoleiddwyr fwrw ymlaen â'u dyletswyddau a'u hamcanion polisi ac, ar yr un pryd – a hynny'n hanfodol – amddiffyn a galluogi darparu cynnwys ar draws ffiniau a lluosogrwydd lleisiau a safbwyntiau, sydd wrth gwrs yn angenrheidiol i sicrhau cymdeithas ddemocrataidd yn Ewrop. Wrth ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd ynghylch diwygio AVMS, a'n gwaith gyda'r Grŵp Rheoleiddwyr Ewropeaidd ar gyfer Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, bydd Ofcom yn cefnogi'r egwyddor Gwlad Wreiddiol yn gryf.</i>
--	---

Hyrwyddo amrywiaeth ym maes darlledu

Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai hyrwyddo amrywiaeth ym maes darlledu gynnwys amrywiaeth ddiwylliannol	<i>Mae gwaith Ofcom sy'n ymwneud â hyrwyddo amrywiaeth ym maes darlledu yn canolbwyntio ar ein dyletswydd i gymryd camau priodol i hyrwyddo cyfle</i>
---	---

¹⁹ [Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), t. 9; [Gwasanaethau'r Ombwdsmon](#), tt. 6, 8.

²⁰ [Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), t. 4; [Llywodraeth yr Alban](#), t. 2.

²¹ Ofcom, [Improving mobile coverage](#), 18 Mawrth 2016.

<p>gwledydd a rhanbarthau'r DU. Nododd nad yw'r ffordd y mae'r cyfryngau yn y DU yn portreadu Cymru yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol y wlad.</p>	<p><i>cyfartal ym maes gwaith a hyfforddiant yn y byd teledu neu radio. Mae'r ddyletswydd hon yn ein cyfarwyddo i hybu cydraddoldeb yn y meysydd hyn, yn arbennig o ran rhyw, anabledd a chefnidir ethnig.</i></p> <p><i>Fel rhan o'n Hadolygiad diweddar o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (PSB), buom yn ystyried perfformiad PSB yng Ngwledydd ac yn Rhanbarthau'r DU.²² Daethpwyd i'r casgliad bod y modd y mae pobl yn cael eu cynrychioli a'u portreadu, yn gyffredinol, yn dal yn fater pwysig i gynulleidfaoedd. Serch hynny, roedd gwaith ymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill i feddwl bod pobl o'u gwlad nhw yn cael eu portreadu mewn ffordd gadarnhaol. Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu cyflawni rhagor o waith yn y maes hwn yn 2016/17.</i></p>
--	---

Safonau cynnwys

<p>Roedd COBA ac A+E Networks UK o'r farn y dylai darlledwyr gael mwy o hyblygrwydd i amserlennu cynnwys ar ôl y trothwy ar sianeli llinol cyn 9pm, ar yr amod bod system PIN ar waith. Nododd COBA fod y system hon wedi'i hen sefydlu ym maes Fideo ar Alwad ac mewn gwasanaethau ffilm llinol premiwm, lle mae wedi gweithio'n effeithiol.</p>	<p><i>Ar hyn o bryd, rydym yn pwyso a mesur a yw rheolau'r Cod Darlledu ar gyfer amddiffyn plant yn dal yn briodol, gan ystyried y newid mewn arferion gwyllo a datblygiadau technolegol. Rydym yn gofyn am farn y diwydiant drwy Gais am Fewnbwn ar y risgiau a'r manteision posibl o adael i ddarlledwyr ddangos ystod ehangach o gynnwys sy'n fwy addas i oedolion cyn y trothwy, ar yr amod bod system PIN orfodol ar waith. Rydym hefyd yn cynnal gwaith ymchwil ymysg defnyddwyr i edrych ar y ffordd mae cynulleidfaoedd yn defnyddio systemau gwarchod PIN, faint o hyder sydd ganddynt yn y systemau hyn, a'r archwaeth am newidiadau posibl o'r fath. Defnyddir y Cais am Fewnbwn a'r ymchwil ymysg defnyddwyr fel sail ar gyfer unrhyw gynigion y gallai Ofcom ymgynghori arnynt yn nes ymlaen yn 2016.</i></p>
<p>Mynegodd A+E Networks UK ei fod yn bryderus fod Ofcom, i bob golwg, yn symud tuag at gynyddu rheoleiddio gwasanaethau ar alwad, yn hytrach na dadreoleiddio llwyfannau cyflwyno cyfryngau llinol.</p>	<p><i>Nid bwriad y newid diweddar o'r model cyd-reoleiddio i Ofcom yn dod yn unig reoleiddiwr gwasanaethau rhaglenni ar alwad oedd newid lefel y rheoleiddio ar gyfer y sector hwn. Yn hytrach, y nod oedd sicrhau bod y fframwaith statudol presennol yn cael ei roi ar waith mewn ffordd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl er budd defnyddwyr, cynulleidfaoedd a darparwyr gwasanaethau ar alwad fel ei gilydd.</i></p>
<p>Roedd CWU yn annog Ofcom i roi blaenoriaeth i gadw plant yn ddiogel ar y rhyngwyd, gan gynnwys cyswllt â pheryglon ar-lein, er enghraifft bwlio, cynnwys niweidiol, hacwyr a phobl a allai aflonyddu arnynt yn rhywiol.</p>	<p><i>Bydd hyrwyddo diogelwch plant mewn sefyllfaoedd traddodiadol ac ar-lein yn parhau i fod yn flaenoriaeth bwysig i Ofcom. Mae ein gwaith ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau yn elfen bwysig o'r gwaith hwn, gan gynnwys ein gwaith ymchwil ar y ffordd mae plant yn defnyddio'r cyfryngau a phryderon pobl ifanc yn eu harddegau am gynnwys fideos ar-lein. Mae gwaith ymchwil Ofcom yn cael ei ddefnyddio'n eang gan ein rhanddeiliaid a byddwn yn dal ati i gefnogi UKCCIS i</i></p>

²² Ofcom, [Public service broadcasting in the internet age: the Nations of the UK and their regions](#), 2 Gorffennaf 2015.

	hyrwyddo negeseuon diogelwch pwysig ymhlith rhieni.
--	---

Buddsoddi mewn cynnwys

<p>Roedd COBA yn teimlo bod Ofcom wedi tan-gofnodi lefelau cyllid heb fod yn ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynnwys y DU. Roedd yn dadlau nad oedd ffigurau Ofcom ar gyfer gwariant ar gynnwys yn llwyr ystyried cyllid gan gynhyrchwyr, sianeli llai a thramor, a gwasanaethau Fideo ar Alwad, ynghyd â gostyngiadau treth a buddsoddiad mewn cynrychiadau chwaraeon (yn hytrach na hawliau).</p> <p>Roedd A+E Networks UK yn annog Ofcom i ddangos cyfraniadau darlledwyr masnachol yn ei adolygiad PSB nesaf.</p>	<p><i>Yn yr Adolygiad PSB diweddar, fe wnaethom roi perfformiad PSB yng nghyd-destun y farchnad ehangach. Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyflwyno gwybodaeth flynyddol dipyn manylach na gweithredwyr masnachol eraill. Felly fe wnaethom ofyn i'r darlledwyr mwyaf yn y DU roi gwybodaeth am wariant ar raglenni gwreiddiol o'r DU i'r un diffiniadau â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Rhoddwyd cyfle i bob rhanddeiliad gyflwyno unrhyw wybodaeth oedd yn berthnasol yn ei farn ef yn ystod cyfnod helaeth o ymgynghori â'r cyhoedd. Ystyriodd Ofcom yr holl wybodaeth a ddarparwyd. Byddem yn fwy na bodlon gweithio gyda'r diwydiant i wneud yn siŵr ein bod, yn y dyfodol, yn gallu cynnwys gwybodaeth fanwl gymaradwy o'r sector aml-sianel yn ein gwaith, fel sy'n digwydd gyda darparwyr gwasanaeth cyhoeddus.</i></p>
---	--

Rheoleiddio ym maes radio

<p>Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gwrandawyr mewn rhai rhannau o Gymru yn ei chael yn anodd cael BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.</p>	<p><i>Mater i'r BBC yn bennaf yw argaeledd BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales. Mae darpariaeth FM Radio Cymru ar 95%, ond fel y mae pethau mae Radio Wales ar ei hôl hi, ar 81%. Deallwn fod y BBC yn ystyried opsiynau ar gyfer gwella darpariaeth FM Radio Wales. Mae Ofcom wedi trafod atebion posibl â'r BBC ac mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dweud yn glir nad oes unrhyw resymau pam na ellir ad-drefnu lle ar amblecsau'r BBC ar draws y DU i'w defnyddio gan BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales ar 14 o drosglwyddyddion yng nghanolbarth Cymru. Mater i'r BBC yw penderfynu sut mae am symud ymlaen gyda'r cynigion hyn.</i></p>
<p>Roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau yn erbyn dadreoli rheolau lleolwydd ar gyfer radio, ac yn hytrach na hyn yn ffafrio ymestyn y system reoleiddio ar gyfer newyddion a chynnwys lleol i DAB.</p>	<p><i>Ar 23 Chwefror 2016, fe wnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei gynghori ynghylch yr opsiynau ar gyfer diwygio'r gofynion rheoleiddio presennol ar gyfer radio, gan gynnwys yng nghyswllt cynnwys lleol.²³ Ar ôl i Lywodraeth y DU ystyried ein cyngor, byddwn yn gweithio gyda hi i roi unrhyw ganlyniadau ar waith.</i></p>

Sbectrwm

<p>Cododd O3B Ltd nifer o faterion yn ymwneud â'r sbectrwm sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y diwydiant lloerennau. Roedd hyn yn cynnwys sicrwydd rheoleiddiol i weithredwyr lloeren mewn bandiau amledd penodol, a rhoi Penderfyniad y Pwyllgor Cyfathrebiadau</p>	<p><i>Fel rhan o'n Strategaeth Sbectrwm Gofod, rydym yn cynnig blaenoriaethu gwaith sy'n cefnogi'r broses o wella gwasanaethau band eang lloeren i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr yn y DU.²⁴ Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried camau rheoleiddiol a allai sicrhau bod rhwydweithiau orbit lloeren nad yw'n ddaearsefydlog (NGSO) a Gorsafodd Daear ar Lwyfannau Symudol</i></p>
--	--

²³ Ofcom, [Llythyr at Ed Vaizey AS](#), 23 Chwefror 2016.

²⁴ Ofcom, [Strategaeth Sbectrwm Gofod](#), 1 Mawrth 2016.

Electronig (ECC) ynghylch Gorsafodded Daear ar Lwyfannau Symudol ar waith yn genedlaethol.	<i>(ESOMPs) yn cael mwy o ddefnydd. Byddwn yn ystyried gofynion penodol O3B fel rhan o'r gwaith hwnnw.</i>
Roedd Three a BT yn annog Ofcom i weithio gyda'r Llywodraeth i ddod o hyd i gyfleoedd i ryddhau sbectrwm y sector cyhoeddus. Roedd BT yn annog Ofcom i bennu amserlen newydd ar gyfer arwerthiant y sbectrwm 2.3/3.4 GHz ac i baratoi safbwynt y DU ar gyfer trafodaethau rhyngwladol ar y band 5 GHz.	<i>Rydym wedi rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar darged diwygiedig ar gyfer rhyddhau sbectrwm y sector cyhoeddus, gan gynnwys dynodi 'bandiau targed' penodol i'w rhannu neu'u ryddhau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Llywodraeth ar astudiaethau technegol er mwyn bwrw ymlaen â hyn. Bydd amserlen ddiwygiedig ar gyfer dyfarnu 2.3/3.4 Ghz yn cael ei phennu ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd ddod i benderfyniad ynghylch bwriad 3UK i brynu O2 ac uno'r ddau gwmni. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â'n strategaeth ar gyfer y band 5 Ghz yn y dyfodol.</i>
Anogodd BT Ofcom i roi blaenoriaeth i gyhoeddi datganiad ar y Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr, gan fod datblygiadau technegol yn disodli'r rheoliadau presennol.	<i>Mae Ofcom wedi bod yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a ddaeth i law i'w ymgynghoriad ar y Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr (Rheoli Ymyriant oddi wrth Gyfarpar) ac mae wedi cyhoeddi ei benderfyniad ar y mater hwn yn ddiweddar.²⁵</i>
Dywedodd BEIRG y dylai Ofcom flaenoriaethu dyrannu bandiau sbectrwm amgen hyfyw ar gyfer PMSE sain, a mynegodd pa mor bwysig yw cael cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer defnyddwyr PMSE sain er mwyn hybu ymchwil, datblygiadau a defnydd o gyfarpar newydd ar gyfer y band.	<i>Mae dod o hyd i sbectrwm amgen ar gyfer PMSE sain, a'r gwaith dadansoddi manwl sy'n gysylltiedig â hynny, wedi bod yn flaenoriaeth i Ofcom. Erbyn hyn, rydym wedi cwblhau'r gwaith hwn, ac rydym wedi penderfynu caniatáu mynediad i'r band 960-1164Mhz ar gyfer PMSE sain.²⁶ Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cyllid i'r sector. Mater i'r Llywodraeth, sy'n ystyried yr achos dros ddarparu cyllid cyhoeddus, fydd unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch cyllid cyhoeddus i gefnogi clirio PMSE. Byddwn yn parhau i gysylltu â'r Llywodraeth ar y mater hwn.</i>
Dywedodd BEIRG fod dyfeisiau bylchau gwyn yn dechnoleg newydd sydd heb ei phrofi i raddau helaeth, a'i bod yn peri risg o ymyriant i ddefnyddwyr PMSE. Anogodd Ofcom i fynd ati'n ofalus i fonitro'r modd y mae dyfeisiau bylchau gwyn yn cael eu cyflwyno.	<i>Wrth bennu'r rheolau cydfodolaeth ar gyfer dyfeisiau bylchau gwyn, fe wnaeth Ofcom ymgymryd â gwaith profi helaeth, gan gynnwys profi dyfeisiau bylchau gwyn yn theatrau'r 'West End'. Rydym yn ffyddiog y bydd y rheolau cydfodolaeth yn gwneud yn siŵr nad yw'n debygol y bydd y dyfeisiau'n arwain at ymyriant niweidiol i ddefnyddwyr PMSE. Fel y nodir yn ein Datganiad, byddwn yn monitro'n ofalus sut mae dyfeisiau bylchau gwyn yn cael eu defnyddio.²⁷ Rydym hefyd yn bwriadu cyflawni archwiliadau cydymffurfio rhagweithiol drwy ymweld â defnyddwyr dyfeisiau bylchau gwyn yn ystod y flwyddyn neu ddwy gyntaf pan fyddant yn weithredol.</i>

Y gwasanaeth post cyffredinol

Mynegodd y rhanddeiliaid eu bod yn bryderus ynghylch y gostyngiad parhaus yn nifer yr eitemau post, diffyg bodolaeth	<i>Bydd ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Post Brenhinol yn cael ei reoleiddio yn ystyried beth yw'r ffordd orau o sicrhau gwasanaeth post cyffredinol sy'n effeithiol ac yn</i>
--	--

²⁵ Ofcom, [Penderfyniad i wneud Rheoliadau Telegraffiaeth Ddi-wifr \(Rheoli Ymyrraeth o Offer\) Rheoliadau](#), Mawrth 24, 2016.

²⁶ Ofcom, [Sbectrwm Newydd ar gyfer PMSE Sain](#), 10 Mawrth 2016.

²⁷ Ofcom, [Gweithredu Bylchau Gwyn Teledu](#), datganiad, Chwefror 2015.

<p>cystadleuaeth pen-i-ben, effeithlonrwydd y Post Brenhinol, a chynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol.²⁸ Roedd Y Post Brenhinol yn dadlau na ddylai ymyriadau rheoleiddiol roi ei referniw mewn perygl.</p>	<p><i>ariannol gynaliadwy yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion i newid y fframwaith rheoleiddio yn Ch1 2016/17, a chwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y flwyddyn hon.</i></p>
---	--

Y farchnad barseli

<p>Roedd y Post Brenhinol a CWU yn annog Ofcom i fonitro'r farchnad barseli yn ofalus er mwyn gwarchod defnyddwyr. Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon yn annog Ofcom i roi sylw i godi tâl ychwanegol ar barseli.</p>	<p><i>Mae Ofcom yn gweithio gyda Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor Defnyddwyr Cyffredinol Gogledd Iwerddon er mwyn ceisio deall yn well beth yw achos ac effaith codi tâl ychwanegol ar barseli yng Ngogledd Iwerddon ac yn Ucheldir ac Ynysoedd yr Alban.</i></p>
---	--

Y rhwydwaith ffôn switsio cyhoeddus (PSTN) a batri wrth gefn

<p>Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y byddai cau PSTN yn arwain at broblemau mawr i ddefnyddwyr rhwydwaith, yn enwedig defnyddwyr bregus.²⁹</p>	<p><i>Mae disgwyl y bydd symud oddi wrth yr hen systemau PSTN a symud gwasanaethau i lwyfannau newydd yn cymryd nifer o flynyddoedd, yn enwedig i rwydweithiau mwy. Rydym yn bwriadu monitro cynnydd darparwyr wrth iddynt ddatblygu gwasanaethau newydd er mwyn gwneud yn siŵr bod cynnyrch hanfodol, yn enwedig cynnyrch y mae defnyddwyr mwy bregus yn debygol o fod yn ddibynnol arnynt, yn cael eu disodli gan wasanaethau sydd yr un mor ddigonol o ran ymarferoldeb, argaeledd a phris.</i></p>
<p>Cododd BT bryderon am gymhwyso hen reoliadau i ffibr, yn enwedig batri wrth gefn, a allai effeithio ar benderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau ffibr.</p>	<p><i>Byddwn yn parhau i ystyried yn frwd pa mor briodol yw rheoliadau batri wrth gefn yng nghyd-destun datblygiadau yn y farchnad, gan gynnwys buddsoddi mewn technolegau rhwydwaith newydd, gan sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn yn briodol.</i></p>

Diogelu defnyddwyr rhag niwed

Sgamiau a galwadau niwsans

<p>Tynnodd y rhanddeiliaid sylw at y ffaith bod sgamiau a galwadau niwsans yn achosi poen meddwl, pryder a thralod mawr i ddefnyddwyr.³⁰</p>	<p><i>Mae mynd i'r afael â galwadau niwsans yn un o'r meysydd gwaith a amlinellir yn Adran 3 uchod. Gan gofio bod i alwadau niwsans ddimensiwn rhyngwladol yn aml iawn, a bod y rhai mwyaf difrifol yn gallu cynnwys anonestrwydd a thwyll, bydd Ofcom hefyd yn gweithio gyda'n cymheiriaid rheoleiddio mewn gwledydd eraill, yn ogystal â chyrff sy'n gorfodi cyfraith droseddol ar sgamiau.</i></p>
---	---

²⁸ [Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau](#), t. 5; [Y Post Brenhinol](#), t. 2; [Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), t. 5; [Uned Ffi'r Drwydded y BBC](#), tt. 3-4; [CWU](#), t. 9-10.

²⁹ [Fforwm Defnyddwyr ar gyfer Cyfathrebiadau](#), t. 3; [Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), t. 2; [SSE](#), t. 2.

³⁰ [Y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), tt. 7-8; [Safonau Masnach Cenedlaethol – Tîm Sgamiau](#), tt. 1-2; [Grŵp TalkTalk](#), t. 3.

Defnyddwyr bregus

<p>Cododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl (ACOD) a'r CWU bryderon nad yw defnyddwyr anabl a defnyddwyr hŷn yn gallu cymryd rhan lawn mewn gwasanaethau cyfathrebu digidol. Roeddent yn annog Ofcom i gynnal ymgyrch e-lythrennedd er mwyn hybu cynhwysedd.</p>	<p><i>Byddwn yn parhau â'n gwaith i amddiffyn defnyddwyr a dinasyddion, yn enwedig y rheini sydd mewn sefyllfaoedd bregus, drwy gyfrwng ein gwaith polisi a'r rhaglen ddiogelu, gan gynnwys ein hymchwiliadau. Rydym yn cytuno bod llythrennedd yn y cyfryngau yn bwysig, a byddwn yn dal ati i ddatblygu ein rhaglen ymchwil i dynnu sylw at faterion yn ymwneud â chynhwysiant digidol a chyfranogaeth. Byddwn yn mynd ati'n rheolaidd i siarad â rhanddeiliaid am ein canfyddiadau, a byddwn yn eistedd ar amrywiol gyrrff/pwyllgorau i hyrwyddo'r materion hyn.</i></p>
<p>Cododd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl (ACOD) a'r Cyngor Defnyddwyr bryderon fod defnyddwyr bregus (gan gynnwys defnyddwyr sy'n anabl, ar incwm isel neu'n dioddef o salwch cronig) yn tueddu i dalu mwy am wasanaethau gan nad ydynt yn ymwneud â'r farchnad i'r un graddau â defnyddwyr cyson.</p>	<p><i>Tynnodd Ofcom sylw at y pryderon hyn yn Adroddiad Profiad y Defnyddiwr 2015. Un maes gwaith amlwg i Ofcom yn 2016/17 yw monitro cynnydd mewn prisiau, rhoi cyngor a gwybodaeth am brisiau, a cheisio sicrhau bod pob defnyddiwr yn cael gwerth gan eu darparwyr cyfathrebiadau. Un maes a fydd yn destun ffocws penodol yw sicrhau bod defnyddwyr sy'n cymryd gwasanaethau llinell sefydlog annibynnol yn cael eu gwarchod rhag cynnydd niweidiol mewn prisiau.</i></p>

Defnyddwyr gyda nam ar y clyw

<p>Roedd Action on Hearing Loss yn annog Ofcom i hyrwyddo anghenion pobl gyda nam ar y clyw, gan gynnwys drwy osod a gorfodi safonau uwch ar gyfer is-deitlo byw ac ymestyn gofynion is-deitlau i wasanaethau Fideo ar Alwad.</p>	<p><i>Mae Ofcom yn ceisio gwella ansawdd is-deitlo byw neu bron yn fyw, a bydd yn edrych ar y rheolau a'r canllawiau sy'n berthnasol i ddarlledwyr (gweler Adran 5 uchod). Byddwn hefyd yn ymgynghori eleni ar beth arall y gallwn ei wneud i wneud gwasanaethau rhaglenni ar-alwad yn fwy hwylus, a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant a grwpiau eiriolaeth ar y materion hyn.</i></p>
---	--

Sylwadau eraill sy'n ymwneud â'n nodau

Y gwledydd a'r rhanbarthau

<p>Roedd rhanddeiliaid yn teimlo y dylai Ofcom geisio cael aelod Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan fod defnyddwyr yn haeddu cael yr un gynrychiolaeth ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.³¹</p>	<p><i>Bydd newidiadau deddfwriaethol ym Mil Cymru ac ym Mil yr Alban yn ei gwneud yn bosibl penodi aelodau Bwrdd i gynrychioli Cymru a'r Alban. Erbyn hyn, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei fwriad i gyflwyno deddfwriaeth debyg i ganiatáu penodi aelod Bwrdd i gynrychioli Gogledd Iwerddon.³²</i></p>
<p>Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ofcom roi rhagor o fanylion am ei gynlluniau i gynyddu ei amlygrwydd a'i bresenoldeb yn yr Alban. Gofynnodd iddo ddatgan pa fwriad sydd ganddo i ehangu mewn ffordd</p>	<p><i>Mae Ofcom yn bwriadu adeiladu ar ein gwaith ymgysylltu yn y gwledydd, gan ddechrau yn yr Alban, lle byddwn yn symud o Glasgow i Gaeredin i ehangu ein swyddfa/recrwtio ar gyfer sawl rôl newydd. Rydym yn dal i ymwneud llawer iawn â'r gwledydd datganoledig eraill, a byddwn yn ystyried unrhyw wersi</i></p>

³¹ [Pwyllgor Cyngori Gogledd Iwerddon](#), t. 2; [y Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau a'r Panel Ymgynghorol Pobl Hŷn a Phobl Anabl \(ACOD\)](#), t. 3.

³² John Whittingdale AS, [Llythyr at Jonathan Bell a Carál ní Chuilín](#), 17 Mawrth 2016.

debyg yn y gwledydd datganoledig eraill, er mwyn sicrhau cydraddoldeb.

a ddysgir yn yr Alban. Fodd bynnag, nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ehangu ein swyddfa yng Nghymru.

Asesiadau effaith

Dyweddodd [Sky](#) y dylai Ofcom adolygu a diweddarau ei arweiniad ar asesiadau effaith, a gyhoeddwyd ddeng mlynedd yn ôl.

Mae asesiadau effaith yn rhan allweddol o'n gwaith i ddadansoddi unrhyw gynigion rheoleiddiol, ac mae'n bwysig i ni ein bod yn sicrhau bod ein dulliau o weithio yn adlewyrchu datblygiadau mewn arferion gorau. I'r perwyl hwnnw, mae Ofcom yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y mater hwn a thrafod meysydd lle mae angen diweddarau ein ffordd o weithio o bosib.

Safon apeliadau

Roedd [Grŵp TalkTalk](#) yn dadlau fod y safon apeliadau'n ei gwneud yn rhy hawdd herio penderfyniadau Ofcom.

Rydym yn nodi mai mater i'r Llywodraeth yw diwygio'r drefn ar gyfer apeliadau.